

Gweithio o bell: Y goblygiadau i Gymru

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddESS

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@senedd.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gweithio o bell: Y goblygiadau i Gymru

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddESS

Cadeirydd y Pwyllgor:



Russell George AS
Ceidwadwyr Cymreig

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Hefin David AS
Llafur Cymru



Suzy Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AS
Plaid Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Jack Sargeant AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
1. Cyflwyniad	7
Cylch Gorchwyl:	7
Y Sail Dystiolaeth	8
2. Diffiniadau a Nodau Polisi	10
Y sail dystiolaeth - casglu data a monitro effeithiau	13
Y potensial i 30% weithio o bell yng Nghymru	14
Pwysigrwydd dewis a hyblygrwydd	15
3. Y gweithlu, sgiliau ac effaith ar unigolion	18
Iechyd a diogelwch galwedigaethol	18
Cymdeithasoli, Cydweithio ac Arloesi	20
Rheoli Gweithwyr o Bell	21
Cynhyrchiant a Hawliau Cyflogaeth	22
4. Effeithiau ar gydraddoldeb	25
Cysylltedd band eang a chynhwysiant digidol	25
Stoc dai Cymru	27
Gweithwyr iau	27
Cymorth i weithwyr anabl	27
Gweithio gartref, neu'r hawl i weithio'n hyblyg?	28
Cam-drin Domestig ac Aflonyddu Rhywiol	29
Amrywiaeth a chynhwysiant	30
5. Trafnidiaeth a datgarboneiddio	32
Gwneud y pethau bach yn iawn	34
Modelu a chynllunio ar gyfer gwahanol ddyfodol	34
6. Trawsnewid Canol Trefi a Dinasoedd	35

Cymorth ar gyfer Manwerthu	35
Beth yw pwrpas canol trefi a dinasoedd?	37
Cynllunio defnydd tir a chydlynu polisi.....	39
7. Hybiau cydweithredu	41
8. Argymhellion	47
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	50
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	52

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r "Arbrawf Fawr Gweithio Gartref" wedi chwalu mythau ynghylch gweithio o bell ac wedi dangos buddion amgylcheddol enfawr. Ond mae oblygiadau pellgyrhaeddol ynghlwm wrth uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o weithwyr barhau i weithio 'gartref neu'n agos at adref'.

Roedd plant a oedd yn cael eu dysgu gartref, cathod a chŵn i gyd yn hofran yn y cefndir yn ein sesiynau tystiolaeth, gan dynnu sylw at anawsterau gweithio gartref heb yr amodau cywir. Y gobaith a'r disgwyliad eang yw y bydd model hybrid iachach o weithio'n hyblyg yn dod i'r amlwg, ac y bydd hyn yn beth da. Mae ein canfyddiadau yn herio hynny. I rai gweithwyr anabl mae gweithio gartref gorfodol wedi newid pethau'n fawr iawn, ond mae angen llawer o waith gan Lywodraeth Cymru i amddiffyn hawliau pob gweithiwr, sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau cywir i gefnogi gweithio o bell yn iach, ac atal gweithlu "dwyr haen".

Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod modd cyflawni'r uchelgais o 30%, ond yn ogystal ag enillion amgylcheddol amlwg, rhaid mesur a lliniaru'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach. Gweithwyr â sgiliau uwch sydd ar gyflogau gwell na'r cyfartaledd fydd yn elwa fwyaf, ac mae angen ystyried goblygiadau hyn i weddill y gweithlu, ac i arian cyhoeddus. Mae gwell seilwaith digidol a sgiliau digidol yn flaenoriaeth wrth i'r llywodraeth geisio sicrhau chwarae teg. Gall symud gweithwyr swyddfa o ganol dinasoedd i gymdogaethau lleol arwain at oblygiadau enfawr o bosibl i ardaloedd trefol, sectorau gwasanaeth a'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, ond gallai gyflwyno rhai cyfleoedd cyffrous i ail-ddychmygu ein dinasoedd a'n cymunedau. Rydym yn croesawu asesiad effaith integredig gan Lywodraeth Cymru, y mae'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar ddiffiniadau cadarn a gwell data. Wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg bydd angen ymateb polisi cydgysylltiedig ar fanwerthu, cynllunio gofodol, polisi cydlyniant cymunedol a buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth a digidol.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd. Roedd gweithio o bell yn fodd i ni gasglu barn arbenigol o leoliadau mor bell â'r Ffindir a'r Iseldiroedd. Elwodd

ein hymchwiliad yn fawr ar ymchwil academiaidd yr Athro Alan Felstead a Dr Darja Reuschke. Gobeithiwn y bydd eu hadroddiadau, a'n hadroddiad ninnau, gyda'i gilydd yn helpu i lunio meddwl Llywodraeth bresennol Cymru a'r un nesaf.

Russell George AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

1. Cyflwyniad

Ym mis Medi 2020, nododd Llywodraeth Cymru ei huchelgais hirdymor i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos at eu cartref yn rheolaidd ar ôl i fygythiad y Coronafeirws leihau. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r uchelgais honno - a yw'n ddymunol ac yn gyraeddadwy, a beth fydd yr effeithiau?

1. Cyhoeddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y polisi gweithio o bell mewn datganiad i'r wasg ar 13 Medi, lle nodwyd mai'r nod fyddai i 30% o weithwyr Cymru weithio 'gartref neu'n agos i'w cartref'. Dilynwyd hyn gan ddatganiad ysgrifenedig manylach ar 14 Medi ar ymgorffori gweithio o bell, nodi'r buddion o ran tagfeydd, ansawdd aer a chynhyrchedd, a datgan "Rydym yn anelu at weld oddeutu 30% o'r gweithlu yng Nghymru yn gweithio o bell yn rheolaidd." Ers i'r ymchwiliad ddechrau, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu ymchwil ar effeithiau economaidd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Mae adroddiad y Pwyllgor yn archwilio pwysigrwydd diffiniadau clir, mesur a monitro gofalus, ac asesiadau effaith i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi.

Cylch Gorchwyl:

2. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd archwilio cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch gweithio o bell, gan gynnwys yr uchelgais i weld 'oddeutu 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos i'w cartref' yn rheolaidd, a'r bwriad i ddatblygu o hybiau gweithio o bell. Byddid yn edrych ar effeithiau posibl y polisi hwn ar Gymru, o ran effeithiau ar:

- Yr economi a busnes;
- Canol trefi a dinasoedd;
- Materion sy'n effeithio ar y gweithlu, a sgiliau;
- Iechyd (corfforol ac iechyd meddwl) a llesiant;

- Anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau a gwahanol rannau o Gymru (gan gynnwys yr ardaloedd hynny sydd â chysylltedd gwael);
- Yr Amgylchedd; a'r
- Rhwydwaith trafnidiaeth a'r seilwaith.

3. Archwiliodd yr ymchwiliad hefyd yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei ddysgu o'r dull a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Y Sail Dystiolaeth

4. Derbyniodd y Pwyllgor 18 o ymatebion manwl a meddylgar i'r ymgynghoriad gan ystod amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, y byd academiaidd a'r trydydd sector, ynghyd â thystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar gan dystion.

5. Penderfynodd yr aelodau hefyd gomisiynu ymchwil academiaidd bellach yn benodol i Gymru, a chawsant gymorth gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd i gwmpasu gwaith gydag amrywiaeth o arbenigwyr. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut gallai gwahanol fusnesau a sectorau gael eu heffeithio, pa effeithiau y gallai'r hybiau cymunedol arfaethedig eu cael ar ganol trefi a dinasoedd, ac unrhyw dystiolaeth sydd ar gael o wledydd sydd â chyfran gymharol uchel o weithwyr sy'n gweithio o bell.

6. Mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i'r holl academyddion hynny a fynegodd ddiddordeb mewn gweithio gyda'r Pwyllgor ar yr ymchwiliad hwn, ac a roddodd dystiolaeth lafar, gan gynnwys Dr Jane Parry a'r Athro Abigail Marks. Mae diolch arbennig yn ddyledus i'r Athro Alan Felstead a Dr Darja Reuschke, a aeth ymlaen gyda'u cydweithwyr academiaidd i ddarparu adroddiadau manwl i'r Pwyllgor am ganfyddiadau eu gwaith ymchwil. Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi'r gwaith comisiwn hwn ochr yn ochr â'i adroddiad, ac mae'n sicr y bydd pawb sydd â diddordeb yn y maes hwn o'r farn ei fod yn addysgiadol iawn.

7. Cymerwyd dystiolaeth lafar hefyd gan gynrychiolwyr busnes a darparwyr gofod cydweithredu; gweithredwyr trafnidiaeth; undebau a chyrrff cydraddoldeb; Cyngor Abertawe ac arbenigwyr rhyngwladol yn y Ffindir a'r Iseldiroedd. Byddai'r Pwyllgor wedi hoffi derbyn mwy o fewnbwn gan awdurdodau lleol, sy'n

gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r ansicrwydd ynghylch effaith y pandemig ar y stryd fawr a chanol trefi a dinasoedd, ond mae'n deall y pwysau sydd arnynt i ymateb i'r effaith uniongyrchol ar fusnesau a chymunedau.

8. Daw'r adroddiad hwn yn hwyr yn nhymor y Senedd, wrth iddo gael ei gyhoeddi o fewn wythnosau i'r hyn y disgwyliwn iddo fod yn gyfnod cyn diddymu cyn etholiadau'r Senedd. Gan hynny, bydd argymhellion yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru i'w hystyried, ond bydd angen mynd i'r afael â goblygiadau cynyddu gweithio o bell i Gymru, ochr yn ochr â heriau ailadeiladu'r economi, cefnogi cydnerthedd cymunedau a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

2. Diffiniadau a Nodau Polisi

9. Dewiswyd y term ‘gweithio o bell’ ar gyfer yr ymchwiliad i adlewyrchu terminoleg Llywodraeth Cymru, ond roedd yr union ddiffiniad, ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn parhau i fod yn aneglur yn natganiadau cychwynnol a datganiad i’r wasg Llywodraeth Cymru ganol mis Medi. Ar 14 Medi, nododd:

“Rydym am gadw manteision gweithio o gartref. Rydym am i weithwyr gael mwy o gyfleoedd i weithio o gartref neu mewn swyddfa leol yn amlach, ble y mae’n gweithio iddynt hwy a’u cyflogwyr – nid llai o gyfleoedd.”

10. Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor ar 9 Rhagfyr dywedodd yr Athro Felstead:

“I think this committee should make a strong recommendation about measurement and press Welsh Government to what it means by 30 per cent, because it’s incredibly vague, I can tell you.”

11. Cwestiynodd yr Athro Felstead hefyd pa mor bell o gartref y gellir ei gyfrif fel ‘gweithio yn agos i’w cartref’, ac mae’n awgrymu y gall diffiniad amhenodol o’r fath ei gwneud hi’n anodd dwyn llywodraeth i gyfrif.

12. Yn ogystal, dywedodd Dr Jane Parry wrth y Pwyllgor, gan fod sefydliadau eisoes yn casglu eu data eu hunain, bod angen diffiniadau cadarn o ‘weithio o bell’ i ganiatáu cymhariaeth systematig ar draws marchnad lafur Cymru. Cytunodd y Pwyllgor â’r safbwyntiau hyn bod angen mwy o eglurder.

13. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod eisiau “cadw manteision” gweithio o bell ar gyfer ei gweledigaeth “Trawsnewid Trefi”, ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor ym mis Chwefror 2021 nododd fod y polisi yn gyfle i:

“sicrhau bod y newid mewn ymddygiad yr ydym wedi’i weld yn ein cymunedau yn troi’n llwyfan ar gyfer ailadeiladu’n heconomi a gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.”

14. Yn ei ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau pobl o ran hybiau cydweithredu, drwy ‘Commonplace’, rhestrodd Llywodraeth Cymru y buddion yn fwy manwl:

- Mwy o hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a Gwaith;
- Llai o draffig, yn enwedig yn ystod yr oriau brig;
- Llai o lygredd aer a llygredd sŵn;
- Lleihad mewn amser teithio;
- Cyfle i ailgynllunio canol ein trefi a’n dinasoedd.

15. Dywedodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wrth y Pwyllgor ar 24 Chwefror mai ei ddiffiniad gweithredol o weithio o bell oedd:

“working outside of a traditional office or central place of work, which includes working at home or close to home in your local community.”

16. Dywedodd ei fod yn faes polisi sy’n dod i’r amlwg i Lywodraeth Cymru ac nad oes ganddi’r holl atebion eto, a bod y darlun yn esblygu.

17. Pan holwyd ef sut cyrhaeddwyd yr uchelgais o 30%, eglurodd fod y cabinet wedi nodi cyfle i ‘gadw rhai o’r pethau da’ a ddaeth o brofiadau’r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud wrth fynd i’r afael ag effeithiau andwyol ansawdd aer gwael, tagfeydd ac allyriadau cynyddol, drwy geisio cynnal lefel gweithio o bell, gweithio hyblyg a gweithio gartref fel nodwedd barhaol o waith yng Nghymru.

18. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y cabinet wedi ystyried amryw o ddewisiadau wrth benderfynu ar y targed o 30%, er na nododd fanylion ffynhonnell/ffynonellau’r data, y tu hwnt i gyfeirio at ffigur ‘rhywbeth tebyg i 45%’ ar gyfer gweithio gartref yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Cydnabu fod hynny’n cynnwys pobl yn gweithio gartref ‘dan orfodaeth’. Dywedodd y bu pryderon sylweddol yn y cabinet ynghylch effeithiau o ran cydraddoldeb yn benodol drwy osod lefel uchelgais rhy uchel - nid yw’r cartref yn lle hapus i bawb - felly roedd wedi setlo ar y pen isaf o 30%, gan dynnu sylw at y 40% a oedd yn dal i weithio gartref ar hyn o bryd ym mis Chwefror 2021.

19. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y targed yn ‘gyraeddadwy ond nid yn hawdd’, ond er mwyn osgoi gadael i bethau lithro’n ôl, roedd yn bwysig cloi’r newid ymddygiad i mewn. Esboniodd Simon Jones o Lywodraeth Cymru fod y polisi yn rhan annatod o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a dyna pam roedd yn cael ei arwain gan Weinidogion Trafnidiaeth, a heb rai targedau byddai’n anodd dangos llwyddiant. Tynnodd sylw at y ffaith mai cael gwared ar yr angen i deithio yw copa’r hierarchaeth drafnidiaeth a bod hwn yn ddarn ‘hanfodol’ o’r bwriad i gyflawni gofynion statudol 2050 ar gyfer lleihau allyriadau carbon, felly byddai ‘ychydig yn rhyfedd’ peidio â phennu targed.

20. Canolbwyntiodd rhywfaint o dystiolaeth i’r ymchwiliad ar faterion ehangach yn ymwneud â ‘gweithio hyblyg’ a oedd y tu allan i’r cylch gorchwyl i raddau, ond mae diffiniadau’n bwysig, ac yn bwysig o ran monitro a gwerthuso canlyniadau.

Dywedodd Cerys Furlong o Chwarae Teg, sy’n gweithio gyda busnesau i ddangos sut mae gweithio’n hyblyg yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau i hybu twf a chynhyrchedd busnes:

“...the terminology and the difference between flexibility, agile, remote and distributed. All of those matter. Naturally, agile working is perhaps a better term to use and it focuses on the results and the output of that working rather than the hours worked, and that’s a big shift for employers to make, but that’s all that really makes a difference.”

21. Dywed Chwarae Teg fod y term ‘gweithio ystwyth’ yn golygu mai ‘gweithgaredd yw gwaith, nid lle’ ond nid yw o reidrwydd yn golygu gweithio gartref. Mae’n golygu nad yw un ateb yn addas i bawb - sy’n thema gyffredin gan dystion - ac mae sefydliad sy’n ‘gweithio’n ystwyth’ yn cynnig llawer o wahanol ddewisiadau dylunio swyddi ac felly’n ystwyth yn ei ddull o ddarparu ei gynhyrchion a’i wasanaethau. Awgrymir o leiaf 12 dewis dylunio swydd, yn amrywio o ran-amser a rhannu swydd i gylchdroi swyddi a thasgau ar sail sgiliau.

22. Dywedodd FSB Cymru ei bod yn bwysig cynnal y gwahaniaeth rhwng gweithio ‘gartref’ a gweithio ‘o bell’, er mwyn lliniaru’r risgiau a rhoi eglurder ynghylch y buddion.

Y sail dystiolaeth - casglu data a monitro effeithiau

23. Dangosodd ymchwil academiaidd ychwanegol a gomisiynwyd gan y Pwyllgor fod y sail dystiolaeth yn eithaf cyfyngedig ar hyn o bryd, yn ymwneud yn bennaf â data ar 'weithio gartref' traddodiadol – hynny yw, gweithio 'gartref', ar gyfer gweithwyr swyddfa, a chyda data diweddar yn adlewyrchu gweithio gartref gorfodol o dan gyfyngiadau Covid-19.

24. Mae angen casglu data mwy hirdymor penodol i Gymru - mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir iawn ynghylch ei hamcanion polisi a darparu diffiniadau cadarn, a gofyn y cwestiynau cywir yn unol â hynny. Awgrymodd yr Athro Felstead y dylai hyn gynnwys cwestiynau arolwg wedi eu halinio'n agosach â'i pholisi gweithio o bell yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac yn yr Arolwg Gwaith Teg Cymru newydd a gynigiwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg, er mwyn casglu gwell data am gyflogwyr. Gyda chymaint o ansicrwydd ynghylch siâp yr adferiad economaidd ac ymddygiad a phenderfyniadau cyflogwyr a gweithwyr yn y dyfodol ynghylch gweithio o bell, bydd yn hanfodol casglu data cadarn gan gyflogwyr a gweithwyr o gynifer o ffynonellau â phosibl.

25. Dywedodd Lea Beckerleg o Lywodraeth Cymru fod:

“an appetite across the UK and the devolved administrations to track these trends in changed work patterns and at the moment none of the indicators fit - they're all about working from home.”

26. Dywedodd fod ystadegwyr yn gweithio gyda'i gilydd a bod 'cytundeb petrus' ynghylch cynnwys cwestiynau yn arolygon y Deyrnas Unedig, ac i gwestiynau hefyd fynd i'r Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Arolwg Poblogaeth Blyneddol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu amrywiaeth eang o waith casglu data manwl ac yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau ei fod ar gael i randdeiliaid yn gynnar ac yn aml, er mwyn helpu busnesau i gynllunio.

27. Pan ofynnwyd iddo pam ei fod wedi pennu targed cyn casglu sail dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru eisiau 'ffigwr bras i anelu tuag ato' cyn gwneud gwaith pellach i ymgynghori a deall y dystiolaeth yn well, er mwyn sicrhau nad yw'r polisi'n ymgorffori rhai anghydraddoldebau ac anfanteision presennol.

Y potensial i 30% weithio o bell yng Nghymru

28. Cyflymwyd y taflwybr graddol araf am i fyny ar gyfer 'gweithio gartref' cyn y pandemig (1.5% ym 1981 i 4.7% yn 2019) yn aruthrol gan y pandemig: mae'r Athro Felstead yn nodi y cododd i 42.5% ledled y Deyrnas Unedig ym mis Ebrill 2020, gan aros ar 36.5% ar ôl llacio'r cyfyngiadau symud. Yng Nghymru cododd o 3.8% i 36.8%.

29. Mae ymchwil Dr Reuschke yn dangos, cyn y pandemig, fod gan Cymru lai o bobl mewn ardaloedd trefol a gwledig yn gweithio gartref na'r niferoedd yn awdurdodau lleol Lloegr, a bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn ardaloedd trefol a gwledig. Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig mae'r cynnydd mewn gweithio gartref wedi bod yn fwy mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig, ond yn amlwg yng Nghymru bu cynnydd ychydig yn uwch mewn ardaloedd gwledig. Yn gyfrannol mae mwy o bobl a oedd yn newydd i weithio gartref yn ardaloedd gwledig Cymru hefyd eisiau parhau i wneud hynny yn y dyfodol pan na fydd mesurau cadw pellter cymdeithasol.

30. Mae'r mwyafrif helaeth sy'n gallu gweithio gartref yn barod eisiau gweld model gweithio hybrid mwy hyblyg ar gyfer y dyfodol, gan greu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chydbwyso pethau cadarnhaol a negyddol gweithio o bell â bod yn y gweithle. Rhybuddiodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod gweithwyr yn poeni y bydd cyflogwyr yn dychwelyd i arferion gwaith anhyblyg blaenorol, a fyddai'n 'atchweliadol' o ystyried y buddion.

31. Mae rhagdybiaeth eang bod mwy o weithio o bell yn duedd hirdymor - fel y nododd Llyr ap Gareth o FSB Cymru, mae llawer o rwystrau diwylliannol i weithio o bell wedi cael eu rhoi o'r neilltu, ac mae'n fater o sut i reoli'r newid. Mae'r Athro Felstead yn tynnu sylw at y ffaith bod arolygon cyflogwyr a gynhaliwyd gan y CIPD, IoD a CBI hefyd yn awgrymu bod gweithio gartref yma i aros, gyda disgwyl i gynhyrchedd, os rhywbeth, godi yn hytrach na chwympo o ganlyniad. Awgrymodd data arolwg CIPD y disgwylir y bydd gweithio gartref yn rheolaidd yn cynyddu i 37% sef tua dwbl y cyfanswm cyn-bandemig, gyda chyflogwyr yn disgwyl i 22% weithio gartref drwy'r amser ar gyfartaledd, o'i gymharu â 9% o'r blaen.

32. Gellir cyflawni'r targed o 30% (yn gymaint ag y mae'n amlwg beth mae'r targed hwnnw'n ei olygu o ran mesur perfformiad) meddai'r Athro Felstead, ond

bydd yn golygu mai rheolwyr a gweithwyr 'coler wen' â sgiliau uwch sydd â'r gallu i weithio gartref sydd yn y grŵp targed hwnnw - rhaid ystyried goblygiadau sylweddol cydraddoldeb cymdeithasol hynny.

33. Roedd Paul Slevin o Siambrau Cymru o'r farn bod y targed yn gyraeddadwy yn seiliedig ar ddadansoddiad. Dywedodd Ian Price o CBI Cymru y byddai'n dibynnu ar sut rydych chi'n ei gyfleu - dywedodd os yw gweithio hybrid yn cael ei fabwysiadu nad yw'n golygu y bydd pawb yn gweithio gartref ar yr un pryd.

34. Dywed FSB Cymru ei bod yn iawn i hyn fod yn uchelgais ac yn darged meddal, yn hytrach na tharged gorfodol sy'n gosod baich rheoleiddio ar fusnesau bach, ond mae'n 'nod strategol defnyddiol' ar gyfer datblygu polisi cyfannol.

35. Croesawodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y targed, er iddi ddweud y gallai fod yn uwch o bosibl. Dywedodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru nad oedd yn ddigon uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth ac y dylai fod 'o leiaf' 30% Galwodd am adolygiad sylfaenol o'r holl gynlluniau priffyrdd i asesu i ba raddau y gallent gyfaddawdu ar y targed.

36. Mae'n werth nodi bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth hyrwyddo gweithio hyblyg ac adferiad gwyrdd, hefyd yn cynnig Incwm Sylfaenol Cyffredinol ac wythnos waith pedwar diwrnod i leihau ôl troed carbon heb gyfaddawdu ar gynhyrchiant. Mae hi'n cyfeirio at gwmni yn Seland Newydd sydd wedi treialu wythnos waith pedwar diwrnod, lle bu staff yn gweithio pedwar diwrnod wyth awr ond yn cael eu talu am bum diwrnod o waith, ac adroddwyd bod cynnydd wedi bod mewn cynhyrchiant, gyda 78% o'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn gallu rheoli eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Ar wefan y Comisiynydd dyfynnir dadansoddiad o Brifysgol Massachusetts sy'n dadlau pe byddem yn treulio 10% yn llai o amser yn gweithio, byddai ein hól troed carbon yn cael ei leihau 14.6% gan olygu y byddai diwrnod llawn i ffwrdd yr wythnos yn lleihau ein hól troed carbon bron i 30%.

Pwysigrwydd dewis a hyblygrwydd

37. Pwysleisiodd tystion bwysigrwydd strategaeth i ategu gweithio o bell sy'n seiliedig ar gynhwysiant a dewis o ran lle mae unigolion yn dewis gweithio.

- 38.** Ni all cyfran fawr o'r gweithlu weithio gartref ac mae'r nifer hwn yn llawer uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Canfu Arolwg Barn a Ffordd o Fyw y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 56% o oedolion yng Nghymru wedi dweud na allant weithio gartref o gwbl, cryn dipyn yn fwy nag unrhyw ranbarth yn Lloegr - yr agosaf yw 44% yn Nwyrain Canolbarth Lloegr. Wedi dweud hynny, mae'r 37% a oedd yn gallu gweithio gartref ar ddechrau'r cyfyngiadau symud yn sylweddol uwch na tharged Llywodraeth Cymru.
- 39.** Mae ymchwil a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd yn amlinellu sut mae mwy o weithwyr ar gyflog isel - gan na allant weithio gartref eu hunain - yn cael eu heffeithio gan fwy o weithio o bell a lleoliaeth - hynny yw, y rhai mewn sectorau gwasanaeth fel manwerthu, lletygarwch a gwasanaethau cludo nwyddau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwaith i nodi'r anghydraddoldebau sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn y farchnad lafur.
- 40.** Mae cynnydd yn y nifer sy'n gweithio gartref yn ystod y pandemig wedi bod yn fwy dramatig mewn rhai sectorau nag eraill - yn arbennig o uchel mewn bancio a chyllid ond yn llai amlwg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus: mae gan Gymru nifer llai o weithwyr yn y cyntaf nag yn yr olaf sy'n anghymesur â ffigurau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan RICS hefyd yn tynnu sylw at anawsterau i fusnesau ariannol, yswiriant a bancio addasu i weithio gartref, gan adrodd am gynhyrchiant is. Dywedodd nad yw cartrefi yn amgylchedd da ar gyfer canolfannau galw na phrosesu trafodion masnachol diogel.
- 41.** Mewn cyferbyniad, dywedwyd mewn tystiolaeth gan Mitie, cwmni rheoli cyfleusterau sy'n cyflogi 77,500, gan gynnwys 2,500 yng Nghymru, ei fod wedi coleddu 'gweithio ystwyth' a defnyddio hybiau - naill ai swyddfeydd neu safleoedd cleientiaid, ar gyfer ei staff. Mae'n defnyddio system 'Sgôr Mynegai Gweithle' i werthuso effaith lle gwaith ar weithwyr. O arolygu cwsmeriaid dywedodd Mitie fod awydd a dealltwriaeth ymhlith llawer o fusnesau yn y Deyrnas Unedig y bydd canolbwyntio ar weithio ystwyth a phrofiad y gweithle yn flaenoriaeth yn y dyfodol.
- 42.** Dywedodd Dr Jane Parry y dylai Llywodraeth Cymru graffu ar hyfywedd a dymunoldeb y targed ar draws gwahanol sectorau. Mae hyn hefyd yn codi'r cwestiwn a ddylid cael dadansoddiad gwell o'r sail dystiolaeth ddemograffig a

dadansoddiad o ddata galwedigaethol i helpu i lywio lle mae hybiau cydweithredu wedi eu lleoli yng Nghymru.

43. Mae tystiolaeth o'r Ffindir a'r Iseldiroedd, a data ymchwil Ewropeaidd arall, yn dangos bod buddion cadarnhaol mwy o weithio o bell a hyblyg yn cael eu cydnabod yn eang. Ac mae'r rhwystrau a'r pryderon ynghylch mwy o weithio o bell yn y tymor hir y tu hwnt i Covid-19 hefyd yn weddol gyffredinol – fel yr angen am hyfforddiant i reoli o bell, a materion iechyd a diogelwch ynghylch risgiau oriau gwaith hirach, lleoedd gwaith anaddas a datblygu problemau cyhyr-ysgerbydol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai gwersi a ddysgwyd o brofiad rhyngwladol.

3. Y gweithlu, sgiliau ac effaith ar unigolion

44. Mae CIPD yn tynnu sylw at y ffaith bod amgylchiadau personol yn dylanwadu'n fawr ar farn gweithwyr ar weithio gartref - er enghraifft, addasrwydd amgylchedd eu cartref ar gyfer gweithio gartref ac a oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Nid yw'n syndod mawr bod ei ddata'n dangos bod cyflogwyr yn nodi mai gostyngiad mewn llesiant meddyliol yw eu her fwyaf ac mai gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yw'r budd mwyaf.

Iechyd a diogelwch galwedigaethol

45. Mae'r Gymdeithas Meddygaeth Alwedigaethol yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru ond yn ei hannog i fuddsoddi mewn gweithwyr proffesiynol iechyd galwedigaethol a chymorth i'r rhai sy'n gweithio gartref, gyda nifer o argymhellion penodol. Nododd yr Athro Abigail Marks a Dr Jane Parry yr effeithiau negyddol a chadarnhaol ar iechyd meddwl a chorfforol yn fanwl yn eu tystiolaeth.

46. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru y dylid canolbwyntio yn yr un modd ar asesu risg iechyd a diogelwch gartref ag y byddid yn gwneud yn y gweithle, ac amlygodd Dr Noortje Wiezer fod hyn yn dod o dan y gyfraith yn yr Iseldiroedd, lle mae'r cyflogwr yn gyfrifol am amodau gwaith y rhai sy'n gweithio gartref, ac atal peryglon iechyd gweithio gartref. Fodd bynnag, dywedodd Dr Wiezer wrth yr Aelodau, o ganlyniad i'r cynnydd mewn gweithio o bell, nad yw cyflogwyr mor ymwybodol o risgiau gweithio gartref ag y dylent fod, ac o ganlyniad roedd Arolygiaeth Lafur yr Iseldiroedd a'r Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol yn gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i greu cynlluniau iechyd a diogelwch i gynorthwyo eu staff.

47. 'Natur gymdeithasol' y gweithle a gollwyd yn ystod y cyfyngiadau symud, a bydd hynny'n parhau i fod yn wir gyda mwy o weithio o bell. Mae pryderon ynghylch effeithiau ynysu a straen ar y rhai sy'n gweithio gartref wedi cael llawer o sylw, ac ystyriwyd materion yn ymwneud â diogelu iechyd meddwl gweithwyr fel rhan o'r ymchwiliad. Derbyniwyd llawer o dystiolaeth yn y maes hwn.

48. Tynnodd sawl tyst sylw at Arolwg gan OECD a ddaeth i'r casgliad bod lles y rhai sy'n gweithio o bell yn bwysig o ran cynnal enillion cynhyrchiant, a thynnodd

y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sylw hefyd at dystiolaeth y Sefydliad Iechyd Meddwl bod mynd i'r afael â llesiant yn y gwaith yn cynyddu cynhyrchiant gymaint â 12%

49. Rhybuddiodd Doctor Wiezer yr Aelodau bod risg y byddai gweithwyr o bell yn cynyddu eu horiau, gan fod pobl yn yr Iseldiroedd wedi bod yn gweithio yn ystod yr oriau y byddent yn dueddol o fod wedi eu defnyddio yn cymudo yn flaenorol. Esboniodd fod hyn yn golygu, ar gyfartaledd, fod pobl yn gweithio tua phump i 10 awr yr wythnos yn fwy na'u horiau gwaith rheolaidd.

50. Fodd bynnag, yn ôl yr Athro Blomqvist, yn y Ffindir (sydd wedi bod â lefelau uchel o weithio o bell yn hanesyddol, ond lle cododd hynny i dros hanner y gweithlu yn ystod y pandemig), nid oedd nifer yr oriau gwaith wedi cynyddu cymaint ag yn yr Iseldiroedd, ond bod angen mwy o ymchwil o hyd ar sut i sicrhau cynhyrchiant cynaliadwy nad yw'n peryglu iechyd.

51. Mae'n bwysig iawn gwahanu effeithiau gweithio o bell ar iechyd meddwl a chorfforol o dan 'amgylchiadau arferol' a'r sefyllfa dan gyfyngiadau symud. Nid oedd yr Athro Marks o'r farn y dylid symud i ffwrdd o'r agenda 'gweithio ystwyth' oherwydd y senario eithafol bresennol, ond roedd llawer o weithwyr yn ei chael hi'n anodd iawn. Dywedodd nad oes cymorth digonol mewn gwirionedd, ac ein bod ni ar fin wynebu argyfwng iechyd meddwl enfawr.

52. Galwodd Shavanah Taj am fuddsoddi mewn sgiliau rheoli ac iechyd galwedigaethol i ddelio â'r argyfwng hwn. Mae profedigaeth, diweithdra neu ofn ohono, a Covid Hir ymhlith yr heriau hirdymor sy'n wynebu pobl. Ni ddylai cyflogwyr allu tybio bod gwneud addasiadau rhesymol i ganiatáu i bobl weithio gartref yn ddigon. Dywedodd Cerys Furlong fod yn rhaid rhoi offer newydd i reolwyr i gynorthwyo gweithwyr gyda'r 'normal newydd'.

53. Roedd galw cryf am arweinyddiaeth gan sefydliadau sector cyhoeddus i fynd i'r afael yn agored â'r argyfwng iechyd meddwl hwn. Yn yr arolwg Work After Lockdown, dim ond 36% o'r gweithwyr a nododd fod ganddynt fynediad at Raglen Cymorth i Weithwyr (EAP), ac nid oedd 59% yn ymwybodol bod darpariaeth o'r fath ar gael. Awgrymodd Dr Parry y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth iechyd meddwl ychwanegol drwy sefydlu fforymau cymorth amgen lle mae sefydliadau'n ei chael yn anodd camu i mewn - llinellau cymorth am ddim i weithwyr; seminarau ar bynciau fel cwsgr, ymarfer corff a rheoli amser,

gyda llawer o negeseuon e-bost yn cynnig awgrymiadau a chyfeirio; mae arwain drwy esiampyl yn bwysig iawn yn ôl Dr Parry.

54. Mae arolwg ciplun gan Jonathan Morris o Brifysgol Caerdydd a John Hassard o Brifysgol Manceinion yn tynnu sylw at 'orlwytho'r synhwyrddau' yn sgil defnydd hirfaith o Skype/Zoom a thechnoleg gyfathrebu arall yn lle cyswllt wyneb yn wyneb, ac anfanteision sylweddol i weithwyr ac aneffeithlonrwydd sefydliadol. Mae tystiolaeth gan Zoom Video Communications yn cydnabod hyn:

"We could not have predicted that video conferencing would become such a significant part of the working day, and it was not designed to be used in this way. Post-pandemic, as working patterns continue to evolve and possibly move towards a more hybrid home working model, Zoom will be a partner to business, government, regulators and other technology companies to develop the best practices and regulation as necessary to encourage the safe use of digital technology."

55. Mae Zoom yn tynnu sylw at gyfrifoldeb cyflogwyr i sicrhau nad yw gweithio o bell yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl.

56. Cydnabu Simon Jones o Lywodraeth Cymru rôl bwysig dod â chyfres o ganllawiau ynghyd ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr yng Nghymru fel rhan o'r agenda bolisi, a hefyd edrych ar gymorth â hyfforddiant.

Cymdeithasoli, Cydweithio ac Arloesi

57. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am ganlyniadau anfwriadol rhagor o bobl yn gweithio o bell ar gyfalaf cymdeithasol - mae'n hynod bwysig nad ydym yn rheoli arloesi allan o'r system. Tynnodd FSB Cymru sylw at beryglon gweithio o bell yn arwain at 'weithluoedd atomedig', 'gweithio seilo', 'diffyg mannau i weithio ar y cyd' a 'diffyg arloesi a thraws-ffrwythloni syniadau'. Ni wyddys beth fydd effeithiau hirdymor hyn ar ein heconomi, ond mae FSB Cymru yn awgrymu bod yn rhaid i gynlluniau geisio lliniaru hynny neu ddarparu mannau newydd i hyrwyddo arloesi.

58. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad y fersiwn gyfredol o weithio o bell, gyda chyfran fawr o swyddfeydd ar gau, yw'r ffordd y byddwn yn gweithio o bell

yn y dyfodol. Mae ymchwil y CBI yn nodi bod tua thri chwarter o fusnesau o'r farn y bydd eu staff yn gweithio o swyddfa / gweithle i ffwrdd o'u cartref am o leiaf hanner eu hwythnos waith.

59. Gallai partneriaethau sy'n dod â diddordebau academiaidd, busnes, menter a chymunedol at ei gilydd mewn mannau cydweithredu helpu i wneud iawn am hyn, ond mae angen ystyried y goblygiadau hefyd mewn gweithleoedd, gyda gweithio hybrid a llai o staff yn y swyddfa gyda'i gilydd ar unrhyw un adeg. Mae angen ystyried pwrpas y gweithle corfforol ar gyfer y gweithwyr hybrid hynny, a'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni pan fydd timau'n cwrdd yn gorfforol.

60. Wrth nodi ei dull o ddatblygu hybiau yn fwy manwl, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor: "Ein nod yw pwysu a mesur a fydd y ffordd hon o weithio yn annog mwy o gydweithredu a deialog, yn arwain at greu perthynas a chysylltiadau newydd ac at well rwydweithio ar draws sectorau."

Rheoli Gweithwyr o Bell

61. Amlygodd y Doctor Jane Parry y rôl mae rheolwyr llinell wedi ei chwarae yn y pandemig, a'r baich sydd wedi bod arnynt yn dilyn y cynnydd mewn gweithio gartref, gan ddweud:

"line managers have really borne the brunt of this. What we've really learned from the pandemic is workers have very complex needs, and those need to be carefully managed. Line managers have kind of absorbed this and haven't had any of their workload taken off. So, there's a lot of practical support that could be done around adjusting output expectations of line managers, giving them guidance around managing flexible working, rewarding their performance, and also greater recognition from leaders."

62. Mae angen sgiliau arwain a hyfforddiant ar sut i reoli o bell - heriau "croesawu" staff newydd o bell; cynorthwyo dilyniant pan na fydd staff yn gallu rhyngweithio wyneb yn wyneb yn aml â chydweithwyr; ailedrych ar brosesau recriwtio a hyfforddi; rheolaeth effeithiol o weithwyr o bell ac arwain timau o bell. Mae'r effaith ar ddilyniant gyrfa yn bryder arbennig o fawr ac mae angen ei liniaru. Mae hyn hefyd yn ymwneud â phryderon ynghylch creu 'gweithlu dwy haen' yn anfwriadol, sy'n cael sylw yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Cynhyrchiant a Hawliau Cyflogaeth

63. Mae Cymru yn agos at waelod tabl cynghrair cynhyrchiant y Deyrnas Unedig. Ymddengys mai'r consensws cyfredol yw nad yw gweithio o bell yn effeithio'n andwyol ar gynhyrchiant, ac mae data cyflogwyr yn cefnogi hunan-adrodd gan weithwyr. Mae'r Athro Felstead yn tynnu sylw at ddata arolwg busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n awgrymu bod cyflogwyr yn bwriadu parhau i ganiatáu gweithio gartref ar ôl y pandemig, gyda thraean (33.7%) yn nodi cynnydd mewn cynhyrchiant fel un o'r rhesymau, a dim ond 5% o gyflogwyr a nododd gynhyrchiant is fel rheswm dros beidio â gwneud mwy o ddefnydd o weithio gartref yn y dyfodol. Fodd bynnag, beth yw cost y cynnydd hwn mewn cynhyrchiant?

64. Mae cynnydd mewn oriau gwaith yn bryder - mae'r Athro Felstead yn cyfeirio at waith ymchwil a wnaeth cyn y pandemig a ddangosodd bod gweithwyr o bell 8 pwynt canran yn fwy tebygol o boeni am waith na'r rhai a oedd yn y gweithle yn gorfforol, ac yn fwy tebygol o weithio oriau hirach (39% o'i gymharu â 24 %). O ystyried ein bod ni ar hyn o bryd o dan gyfyngiadau Covid-19, a bod llawer o bobl yn gweithio oriau hirach i reoli galwadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig ochr yn ochr â dysgu gartref a materion domestig eraill, a yw'n rhy gynnar i ddweud beth yw'r effeithiau hirdymor?

65. Mae ymddiriedaeth yn elfen ddiwylliannol allweddol ar gyfer gweithio o bell yn llwyddiannus - mae cwestiwn a oes gennym ni'r diwylliant a'r sail gyfreithiol briodol i ategu diwylliant cryf o ymddiriedaeth yng Nghymru. Mae data'r Athro Felstead ar wyladwriaeth cyflogwyr o weithwyr yn peri pryder. Boed trwy ddefnyddio meddalwedd i fonitro gweithgarwch, gwirio presenoldeb mewn cyfarfodydd neu hyd yn oed ffilmio pobl, dywed fod arolwg YouGov ym mis Tachwedd 2020 wedi dangos bod 12% o gyflogwyr yn ei wneud yn barod ac 8% yn bwriadu gwneud hynny. Tynnodd TUC Cymru sylw hefyd at ddefnyddio AI i fonitro gwaith gweithwyr, a pheryglon ei ddefnydd i ddyrannu gormod o waith. Mae model gweithio o bell llwyddiannus y Ffindir yn dibynnu'n fawr ar ddiwylliant o ymddiriedaeth. Mae'r pandemig wedi herio'r syniad na ellir ymddiried mewn gweithwyr i fod yn gynhyrchiol oni bai eu bod yn bresennol yn gorfforol dan oruchwyliaeth, ond a fydd ymddiriedaeth yn ffactor wrth i gyflogwyr wneud penderfyniadau yn y dyfodol, a pha rôl ddylai fod gan y llywodraeth yn hyn o beth?

- 66.** Nid yw cysylltiadau cyflogaeth yn faes sydd wedi ei ddatganoli ac felly mae gan Lywodraeth Cymru lai o allu i ddarparu'r fframwaith i amddiffyn hawliau gweithwyr o ran y cynnydd mewn gweithio o bell. Mae hwn yn destun pryder i'r Pwyllgor mewn perthynas â normaleiddio mwy o weithio o bell yn y dyfodol.
- 67.** Mae deddfwriaeth y Deyrnas Unedig wedi bod ar waith er 2014 i ganiatáu i weithwyr ofyn am weithio hyblyg, ond gyda chwmpas eang i gyflogwyr wrthod ceisiadau o'r fath. Bu gan y Ffindir ddeddfwriaeth ar waith ers llawer hirach, er 1996, ac mae ganddi gytundebau ar y cyd ar deleweithio ar waith, a lefelau llawer uwch o weithio o bell. Yn yr Almaen bydd Deddf Gwaith Symudol sydd ar ddod yn rhoi hawl gyfreithiol i weithwyr gae; hyd at 24 diwrnod y flwyddyn o weithio o bell.
- 68.** Bwriad y Bil Cyflogaeth a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines ym mis Rhagfyr 2019, a ohiriwyd oherwydd y pandemig, oedd cyflwyno un corff gorfodi marchnad lafur newydd, i 'gynnig mwy o ddiogelwch i weithwyr', cynnig cronfa gwerth £1 biliwn i greu mwy o ofal plant, ac, yn amodol ar ymgynghori, bydd y Bil yn gwneud gweithio hyblyg yn ddewis diofyn oni bai bod gan gyflogwyr reswm da dros beidio â'i gynnig. Nid bwriad y Bil hwn ar ymestyn hawliau cyflogaeth ar weithio'n hyblyg oedd rhoi'r hawl i bobl ofyn am beidio gorfod dychwelyd i weithle corfforol, ond yn y 'normal newydd' fe allai fod yn rhywbeth y bydd rhai gweithwyr eisiau hawl i'w gael.
- 69.** Mae Pwyllgor Covid-19 Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi bod yn cynnal ymchwiliad dan y teitl 'Living online: the long-term impact on wellbeing', a'r disgwyl yw y bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ddiweddarach ym mis Mawrth. Mae'r ymchwiliad wedi cymryd tystiolaeth lafar gan y CIPD, TUC, y Fairwork Foundation a'r Brifysgol Agored ynghylch a oes angen i ddeddfwriaeth cyflogaeth newid, a sut dylai hynny ddigwydd. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid cymdeithasol ymgysylltu'n llawn â'i chanfyddiadau a sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymateb.
- 70.** Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru fod ysgogiadau anneddfwriaethol i Lywodraeth Cymru eu harchwilio o fewn y Contract Economaidd gyda chyflogwyr o Gymru, i geisio osgoi unrhyw ganlyniad anfwriadol a chynnwys amddiffyniadau i weithwyr. Mae monitro cydymffurfiad ag ymrwymïadau

‘gwaith teg’ mewn contractau economaidd yn bwysig iawn, a gall Llywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth ar y mater yn y sector cyhoeddus.

71. Fe wnaeth Shavanah dynnu sylw hefyd at ddeddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol fel llwybr i ategu hawliau cyflogaeth. Awgrymodd y gallai'r ddeddfwriaeth sicrhau bod cyflogwyr yn cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch yn yr un ffordd ag y maent ar gyfer gweithleoedd corfforol a sicrhau mynediad digidol gweithwyr at undebau er mwyn efelychu'r mynediad corfforol cyfredol at weithleoedd sydd gan undebau.

72. Dywedodd Llyr ap Gareth o FSB Cymru y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy na dim ond 'pwysleisio agweddau positif' gweithio o bell, ond ystyried o ddifrif yr heriau sylweddol i ran fawr o economi a busnes Cymru ac effeithiau canlyniadol posibl arferion gweithio o bell y tu hwnt i Gymru, a allai hefyd effeithio ar fusnesau yng Nghymru.

73. Tynnodd yr Athro Abigail Marks sylw at y gost economaidd ychwanegol i unigolion yn sgil gweithio gartref - mae peth o faich costau'r gweithle wedi symud i'r rhai sy'n gweithio gartref. Ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig, gall gweithwyr hawlio'r hyn sy'n cyfateb i ryddhad treth o £6 yr wythnos gan Gyllid a Thollau EM i wneud iawn am gostau gweithio gartref, a chyflwynodd Cyllid a Thollau EM 'microwasanaeth' i'w gwneud yn haws i'w hawlio ym mlwyddyn dreth 2020-21. Mae system cymhelliant treth yn gweithredu yn y Ffindir, ac mae pleidiau gwleidyddol yn yr Iseldiroedd yn cynnwys y mater hwn yn eu manifestos.

4. Effeithiau ar gydraddoldeb

74. Mae dadleuon i'w hateb ynghylch a allai mwy o weithio o bell greu cymdeithas fwy anghyfartal yn y pen draw. Mae ymchwil newydd gan economegwyr rhyngwladol blaenllaw, dan y teitl “too much of a good thing”, yn dweud y bydd anghydraddoldeb economaidd yn gwaethygu, ac mai 1-2 ddiwrnod yr wythnos sydd orau ar gyfer ‘tele-gymudo’ heb golli gwybodaeth. Mae ymchwil yr Athro Alan Felstead yn dangos bod 84% o weithwyr â chymwysterau isel yn gweithio y tu allan i'r cartref yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, gyda dim ond 5% o gynnydd mewn gweithio gartref ymhlith y grŵp hwnnw, o'i gymharu â chynnydd o 8% i 59.2% ar gyfer graddedigion. Gwnaed y pwynt eisoes mai gweithwyr â sgiliau uwch a chyflog uwch sy'n elwa'n bennaf ar gymorth i weithio o bell yn barhaus.

75. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru fod rolau rheoli wedi cael eu symud yn gyflym i weithio gartref ar ddechrau'r pandemig, tra ei bod hi wedi bod yn anoddach perswadio cyflogwyr ynghylch gweithwyr canolfannau galwadau, er enghraifft. Roedd y sefyllfa wedi datblygu, ond yn y dyfodol bydd yn bwysig mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n weddill o ran mynediad at weithio gartref. Tynnodd yr Athro Marks sylw hefyd at rai cyflogwyr yn dangos mwy o hyblygrwydd - er enghraifft, caniatáu i staff llawr gwaith dreulio peth o'u hamser mewn rolau fel ateb galwadau.

76. Mae cyrff cydraddoldeb, undebau a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gyd yn gryf o blaid 'gweithio hyblyg', gan ei fod o fudd arbennig i fenywod a rhoddwyr gofal. Mae Covid-19 wedi profi ei bod yn bosibl, ac maent yn dadlau ei bod yn bwysig ymgorffori hyn. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisiau gweld Llywodraeth Cymru yn ehangu ei chynigion i gwmpasu arferion gwaith hyblyg mwy pellgyrhaeddol ac annog cyflogwyr i'w mabwysiadu a'u cynnig i'r holl weithwyr o'r diwrnod cyntaf, oni bai bod rheswm busnes dilys y gellir ei gyfiawnhau i atal hynny.

Cysylltedd band eang a chynhwysiant digidol

77. Tra bod rhai ardaloedd yng Nghymru yn parhau heb fand eang llinell sefydlog o ansawdd da neu fannau gwan ar gyfer derbyn signal symudol, bydd y potensial ar gyfer gweithio gartref yn anghyfartal ar draws cymunedau Cymru.

- 78.** Dywedodd Elinor Williams o Ofcom wrth yr Aelodau ei bod yn bwysig cofio bod llawer o'r eiddo sy'n dal heb gysylltiad yn yr ardaloedd mwyaf anghysbell a gwledig - yr anoddaf i'w cyrraedd a'r mwyaf costus i'w cyrraedd. Cyfeiriodd at y gymhariaeth â signal teledu digidol, sydd ddim ond yn cyrraedd 97.8% o Gymru, ac amlygodd mai'r rhwystr unigol mwyaf i ddarparu gwasanaeth band eang sefydlog gweddus yw cost, ac yn y pen draw, mater i Lywodraethau yw penderfynu faint o gymhorthdal maent yn mynd i'w ddarparu.
- 79.** Nid oedd BT, Openreach nac Ofcom yn cytuno ag argymhelliad diweddar y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru, oherwydd bod cost cyflwyno cysylltiad ffibr llawn i adeilad yn rhy uchel a'r amserlen yn rhy hir, ac y dylai'r ffocws hwnnw fod ar fand eang drwy 4G a 5G. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod angen cysylltiad ffibr ar gyfer seilwaith symudol hefyd. Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru bwysu a mesur yn ofalus y dewisiadau ar gyfer cau'r bwlch digidol yng Nghymru, ond rhaid i'r ymdrechion barhau ar garlam i osgoi gweld y bwlch yn ehangu ymhellach.
- 80.** Mae tystiolaeth Canolfan Cydweithredol Cymru yn tynnu sylw at y ffaith y gallai cysylltedd da a sgiliau digidol fod yn fodd i weithio o bell helpu i leihau anghydraddoldeb drwy sicrhau chwarae teg o ran mynediad at swyddi waeth beth fo'u lleoliad daearyddol, sy'n arbennig o bwysig i bobl sy'n llai abl i deithio i'r gwaith. Ond ar hyn o bryd mae anghydraddoldebau sylweddol: dywedodd nad yw mynediad at fuddion gweithio o bell wedi ei ddosbarthu'n gyfartal ledled Cymru, a rhaid i hyn fod o'r pwys mwyaf wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn. Cododd RICS hefyd y posibilrwydd y byddai cyflogwyr yn gwahaniaethu yn erbyn darpar ymgeiswyr am swyddi heb gysylltedd digonol.
- 81.** Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiâu penodol ar gyfer anghenion cyrff trydydd sector sy'n gweithio ar lawr gwlad, gan gynnwys mewn ardaloedd difreintiedig, i annog a hwyluso gweithio o bell.
- 82.** Rhaid i seilwaith band eang a sgiliau digidol fod yn flaenoriaeth i sicrhau nad yw pobl yn cael eu cloi allan o weithio gartref oherwydd diffyg cysylltiad neu ddealltwriaeth dechnegol. Dangoswyd bod cysylltedd digidol yn gyfleustod hanfodol ac mae Cymru yn dal ar ei hôl hi. Tynnodd BCS sylw at ddata traffig Openreach cyn ac yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, sy'n dangos

cynnydd o bron i 20%, ac sy'n rhoi rhyw syniad o'r lefel y bydd angen i seilwaith weithredu'n fwy parhaol arni wrth i weithio gartref gynyddu. Gwnaeth FSB Cymru argymhellion penodol ar y camau sydd eu hangen o hyd i leihau anghydraddoldebau mewn cysylltedd digidol. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod cymhariaeth Ofcom rhwng mynediad at fand eang sefydlog a theledu daearol digidol - lle penderfynwyd bod y gost yn rhy uchel i dros 2% o Gymru - yn ddilys.

Stoc dai Cymru

83. Ystyriaeth bwysig arall fydd effeithiau mwy o weithio o bell ar y cyflenwad tai a sut gall stoc dai Cymru ei hwyluso. Codwyd y mater ynghylch yr effaith bosibl ar y farchnad dai a phrisiau tai, gyda phobl gefnog sy'n gweithio gartref yn chwilio am fwy o le. Mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality wedi nodi bod hyn yn duedd, a nododd yr Athro Felstead fod rhai o'r codiadau uchaf mewn prisiau wedi bod mewn rhannau o Gymru lle siaredir y Gymraeg yn gyffredin, fel Gwynedd, lle'r oedd diffyg tai fforddiadwy eisoes yn ei gwneud yn anodd i drigolion lleol brynu eu cartrefi eu hunain.

Gweithwyr iau

84. Ar ben arall y farchnad bydd yn bwysig ystyried anghenion pobl sydd eisiau gweithio o bell ond y mae eu llety'n anaddas. Nid yw hyn yn gyfyngedig i bobl ifanc sy'n byw mewn llety a rennir, ond bydd yn effeithio'n arbennig ar y garfan hon. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc hefyd yn elwa mwy ar amser mewn gweithle corfforol a rennir i roi'r 'hyfforddiant drwy brofiad sy'n canolbwyntio ar rôl' maent wedi colli'r cyfle i'w gael. Dywedodd Dr Parry fod angen i sefydliadau archwilio'r angen cyn datblygu model gweithio hybrid, a gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth canolog ynghylch dylunio swyddi deallus y gall sefydliadau a rheolwyr fanteisio arno.

Cymorth i weithwyr anabl

85. Mae gweithio gartref wedi bod yn fuddiol i lawer o bobl anabl, ond mae gwahaniaethu ac arwahanrwydd yn y dyfodol yn bryder a godwyd gan Anabled Cymru ac mewn ymchwil gan Brifysgol Caerdydd. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, er y gallai mwy o weithio o bell newid pethau'n sylweddol o ran gallu pobl anabl i weithio, byddai'n bwysig gweithio gyda

busnesau i atal gweithlu dwy haen, gyda diwylliant presenoliaeth yn ailymddangos a staff allweddol yn y swyddfa tra bod eraill yn aros gartref.

86. Dywedodd Legally Disabled? fod yr orfodaeth ar gyflogwyr i ganiatáu i bobl anabl yn y proffesiwn cyfreithiol weithio gartref yn sgil y pandemig wedi bod yn drawsnewidiol, a bod gallu gweithio o bell wedi helpu llawer o bobl anabl i reoli eu namau a'u lefelau egni yn well. Fodd bynnag, rhybuddiodd nad oedd gweithio o bell o reidrwydd yn cyfateb i 'weithio hyblyg', a bod ailgynllunio swyddi i addasu ar gyfer pobl â chyflyrau cyfnewidiol yn cael ei 'dan-ddefnyddio'n druenus' gan gyflogwyr. Dywedodd tîm Legally Disabled? fod angen mwy o waith ar sut mae symud i weithio o bell yn effeithio ar bobl anabl â gwahanol namau, ac mae'n gwneud argymhellion sylweddol ar y camau y mae angen i Lywodraeth Cymru ac eraill eu cymryd.

87. Mae BCS yn gwneud y pwynt y gallai pobl â phriodoleddau niwro-ddargyfeiriol (tua 1 o bob 7 o bobl yn y Deyrnas Unedig ac sy'n cynnwys dyslecsia, awtistiaeth, ADHD a dyspracsia) ei chael hi'n anodd gyda rhai agweddau ar weithio o bell, fel galwadau fideo, a bydd angen i gyflogwyr wneud addasiadau ar gyfer hynny. Daw'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i rym yma wrth i gynlluniau gael eu datblygu. Tynnodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sylw at y ffaith bod yn rhaid asesu bod unrhyw leoliad domestig neu hwb cymunedol yn gwbl hygyrch. Rhaid i bobl anabl chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion gweithio o bell.

Gweithio gartref, neu'r hawl i weithio'n hyblyg?

88. Dywed y CIPD nad yw cyflogwyr wedi dangos yr un brwdfrydedd dros fathau eraill o weithio hyblyg ag ar gyfer gweithio gartref, ac maent yn dweud bod perygl i'r mathau hynny greu gweithlu dwy haen.

“it is important that governments – both UK and Welsh – and employers work together in efforts to increase the availability and uptake of other forms of flexible working also suitable for non-home workers such as flexi-time, annualised hours, compressed hours, term-time working and job share.”

89. Mae'r CIPD a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o blaid rhoi hawl i weithwyr weithio'n hyblyg 'o'r diwrnod cyntaf'. Mae Dr Jane Parry yn tynnu sylw at rôl y llywodraeth i ategu hawliau gweithio hyblyg sy'n helpu sefydliadau i wneud i'r diwylliant symud oddi wrth 'bresenoliaeth' yn gyffredinol, i helpu menywod. Mae corff cynyddol o dystiolaeth bod menywod wedi ysgwyddo mwy o faich domestig yn ystod y cyfyngiadau symud, gydag effaith hirdymor niweidiol ar eu gyrfaodd.

90. Tynnodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau sylw at gorff o dystiolaeth yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol sy'n awgrymu i ba raddau mae gweithio o bell wedi bod yn gatalydd i anghydraddoldeb sylfaenol rhwng y rhywiau yn y byd academaidd. Dywedodd yr Undeb fod y Lancet, WonkHe a'r New Scientist wedi adrodd ar astudiaethau sy'n dynodi cwymp dramatig mewn ymchwil wedi ei chyhoeddi gan staff benywaidd, a eglurwyd yn rhannol gan 'faich dwbl' cydbwysu gwaith cyflogedig â 'gwaith ar sail rhyw' fel gofal plant, sy'n llawer mwy dwys yn amgylchedd y cartref. Dywedodd yr Undeb er na all gynnig unrhyw dystiolaeth am Gymru, nid oes fawr o reswm i dybio bod ein profiad yn wahanol i brofiad Lloegr a chymaryddion Ewropeaidd eraill.

91. Nod gwaith "Cyflogwr Chwarae Teg" yr elusen Chwarae Teg gyda busnesau yw dileu anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle, gan egluro'r amrywiaeth o arferion gweithio hyblyg modern a sut mae eu mabwysiadu i helpu menywod i gyflawni a ffynnu hefyd yn sicrhau twf a chynhyrchedd. Mae'n tynnu sylw at arolwg byd-eang yn 2016 gan Vodaphone: nododd 61% eu bod wedi cynyddu elw cwmnïau, 83% wedi gweld gwelliant mewn cynhyrchiant, a 58% o'r farn bod gweithio hyblyg wedi cael effaith gadarnhaol ar enw da eu sefydliad. Bydd ffocws cynyddol ar ategu egwyddorion arferion gwaith teg a hyblyg yn ategu nodau cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Cam-drin Domestig ac Aflonyddu Rhywiol

92. Rhaid i anghenion goroeswyr cam-drin domestig fod yn flaenoriaeth yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn nhystiolaeth Cymorth i Ferched Cymru: gall y gweithle a rennir corfforol deimlo fel man diogel sy'n cynnig seibiant i oroeswyr; a rhaid i bob gweithle fod yn ddiogel ac yn rhydd o aflonyddu rhywiol. Mae angen amddiffyn rhag aflonyddu rhywiol wrth weithio o bell hefyd, a dylai cyflogwyr hefyd adolygu eu polisïau i sicrhau eu bod yn deall

dangosyddion posibl cam-drin domestig yn achos gweithwyr o bell, fel y nodir yn nhystiolaeth a Phecyn Cymorth Gwylwyr Covid-19 yr elusen. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod angen ystyried ffyrdd amgen o gynnig gofal bugeiliol i weithwyr.

Amrywiaeth a chynhwysiant

93. Cyfeiriodd BCS at ymchwil diweddar sy'n awgrymu y gallai gweithio o bell gael effaith niweidiol ar raglenni amrywiaeth a chynhwysiant, gan dynnu sylw at y ffaith bod 76% o weithwyr yng Nghymru a Lloegr yn gweithio mewn lleoliad ethnig amrywiol; ac mae gan weithio gartref y potensial i leihau'r amlygiad uniongyrchol a'r rhyngweithio sydd gan bobl â phobl o ddiwylliannau a hunaniaethau eraill. Canfu astudiaeth 'How We Get Along: Diversity Study of England and Wales 2020' gan Sefydliad Woolf ym Mhrifysgol Caergrawnt, fod pobl yng Nghymru a gogledd Lloegr yn tueddu i fod yn llai cadarnhaol ynghylch amrywiaeth na phobl sy'n byw yn Llundain.

94. Dywed BCS "the longer-term societal impacts of home working and the impact on community cohesion, prejudice and discrimination are unknown and Welsh Government may wish to consider these carefully in its planning for supporting home and flexible working and factoring this into its equality impact assessment."

95. Pan ofynnwyd iddi sut bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio i mewn i ddatblygu polisi, dywedodd Lea Beckerleg o Lywodraeth Cymru fod rhagdybiaeth ynghylch y posibilrwydd o greu gweithlu dwy haen o weithwyr 'coler wen' yn y swyddfa yn erbyn rhai 'coler las', ond nad oedd ganddynt y data, felly byddai'r ymarfer i fapio'r galw yn edrych ar bethau fel cyflog ac yn gofyn cwestiynau demograffig ynghylch cynlluniau i weithio gartref neu'n lleol. Dywedodd y byddai plant a phobl ifanc hefyd yn cael eu cynnwys oherwydd y byddai'r polisi yn treiddio i ffyrdd newydd o astudio mewn addysg uwch yn y dyfodol. Byddai materion ynghylch natur wledig lleoliadau hefyd yn cael eu cynnwys:

"...so that the integrated impact assessment is about who benefits, who doesn't, what can we do, and is that work for this policy, is it for another area of Government, is it to be pushed out to local authorities, and so on.."

96. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylai'r asesiad effaith integredig fod yn y drafft terfynol yn yr haf ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid cyn llunio cynllun gweithredu sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru liniaru'r materion hynny.

97. Holwyd y Dirprwy Weinidog am yr effaith ar rieni sy'n gweithio wrth adeiladu momentwm i fwrw ymlaen â pholisi gweithio o bell o fan lle mae rhieni sy'n gweithio yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd. Bydd y perygl o gario'r diwylliant presennol yn ei flaen yn niweidiol i'r rhieni hynny sy'n gweithio. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog yr anawsterau cynhenid, gan ddweud nad gwithiad gorfodol oedd hyn, ond mater o hyblygrwydd i weithwyr a chyflogwyr wneud dewisiadau sy'n gweithio i'r ddwy ochr, ond osgoi mynd yn ôl i'r hen drefn '9 tan 5'.

98. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n croesawu argymhellion y Pwyllgor ar sut i gyflawni'r her honno i rieni sy'n gweithio, gan nodi bod darpariaeth gofal plant yn bwysig ac y gallai gael ei chynnwys yn y cynlluniau peilot o bosibl. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol y gellid edrych ar gydleoli gwasanaethau fel rhan o'r gwaith i adfywio trefi a chymunedau.

99. Mae'r cwestiwn ynghylch sut yr eir i'r afael â'r materion hyn mewn perthynas â gweithredu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd ar awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn agwedd bwysig ar y polisi hwn, ac yn rhywbeth mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yn cael ei archwilio'n agos gan y pwyllgorau perthnasol yn y Chweched Senedd.

5. Trafnidiaeth a datgarboneiddio

100. Mae'r angen i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith trafndiaeth, mynd i'r afael â thagfeydd a llygredd a chyflawni targedau uchelgeisiol o ran y newid yn yr hinsawdd yn ysgogwyr polisi allweddol, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi nodu ei hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni sero-net erbyn 2050 neu'n gynt. Serch hynny, byddai effaith y targed o 30% ar dagfeydd a gorlenwi ar rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus Cymru yn 'ddibwys' yng nghydestun gor-gapasiti cyn Covid-19, yn ôl Christine Boston o Trawsnewid Cymru.

101. Dywedodd arbenigwyr trafndiaeth wrth y Pwyllgor fod y dystiolaeth yn bendant yn bodoli bod tueddiad i barhau i weithio o bell - cyfeiriodd David Beer o Transport Focus at y CBI a'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn dweud bod aelodau'n cefnogi gweithio hyblyg, rhoi gofod swyddfa yn ôl a buddsoddi mewn gwell cysylltedd a thechnoleg gyfathrebu. Nododd hefyd fod Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar ailbennu adeiladau rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio i fod yn hybiau.

102. Tynnodd FSB Cymru sylw at y ffaith bod swyddfeydd yn 'llygryddion uchel', ac yn y Deyrnas Unedig maent yn cynhyrchu 40% o'r holl allyriadau - yn fwy felly hyd yn oed na cheir, a thynnodd RICS sylw at hyn hefyd fel un o effeithiau cadarnhaol y polisi. Byddai angen archwilio faint o leihau ôl troed y swyddfa fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r cartref a biliau ynni, ynghyd â sut i gynorthwyo busnesau bach a chanolig sy'n llai abl i ymdopi â chostau ynni cartref na chyflogwyr mwy. Argymhellodd RICS astudiaeth i gasglu data ar raddfa fawr, y math y mae Safonau Gweithredu Adeiladu Rhyngwladol wedi eu cynllunio ar ei chyfer, fel y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio dadansoddiad ystadegol i werthuso a chyfiawnhau buddion gweithio o bell yn erbyn gweithio mewn swyddfa.

103. Dywedodd Dr Jane Parry y gallai gweithio hybrid arwain at enillion amgylcheddol penodol i sefydliadau sydd ag 'ardal teithio i'r gwaith' fwy - er enghraifft, mewn ardaloedd mwy gwledig.

104. Mae ansicrwydd enfawr ynghylch tueddiadau trafndiaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y Cyngorydd Rob Stewart o Gyngor Abertawe ymhlith y rhai a rybuddiodd yn erbyn unrhyw newid i gynlluniau buddsoddi - barn tystion

oedd bod angen rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus well, mwy integredig ac ymatebol i ategu tueddiadau gwaith yn y dyfodol, beth bynnag fyddai'r rheiny. Tynnodd FSB Cymru sylw at y ffaith bod trafnidiaeth gyhoeddus yn parhau i gael ei defnyddio, a bod gweithio o bell yn 'sbardun arall' i ddatblygu seilwaith trafnidiaeth.

105. Dywedodd yr Athro Glenn Lyons fod angen 'economi gymysg' o atebion trafnidiaeth. Rydym yn gwybod nad oes gan gyfran uchel o bobl yng Nghymru y modd i ddefnyddio car, a bu dirywiad ym mherchnogaeth ceir ymhlith pobl iau, yn rhannol o ganlyniad i ansicrwydd cyflogaeth. Yn ogystal, bydd nifer fawr o bobl na allant weithio o bell o hyd ac a fydd angen mynediad at ddewisiadau trafnidiaeth integredig da. Cyfeiriodd ASLEF, er enghraifft, at staff rheilffyrdd ymhlith y gweithwyr allweddol hynny sy'n dibynnu ar y rhwydwaith ar gyfer eu hanghenion cymudo eu hunain.

106. Dywedodd James Price o Trafnidiaeth Cymru wrth y Pwyllgor fod y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn nwydd cyhoeddus y mae'n rhaid iddo ystywto i ddiwallu anghenion pobl, a'i fod yn hyderus y gallai cynlluniau Metro presennol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ddarparu ar gyfer patrymau gwaith newydd. Bydd ffocws ar ddewisiadau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw hefyd yn bwysig ar gyfer hynny.

107. Galwodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru am i Fetro Gogledd Cymru fod yn destun ail-ysgrifennu cynhwysfawr, gan ddweud y dylai, ymysg pethau eraill, eithrio'r Llwybr Coch, er mwyn cyflawni'r targed gweithio o bell.

108. Mae ymateb manwl undeb rheilffyrdd ASLEF yn tynnu sylw at yr ystyriaethau niferus ar gyfer y rhwydwaith reilffyrdd, o'r angen am ddewisiadau tocynnau hyblyg ar gyfer 'gweithwyr hybrid', i bwysigrwydd ystyried y goblygiadau cyllido i'r rhwydwaith ac effaith gostyngiad neu newid ym mhatrymau nifer yr ymwelwyr - er enghraifft, ar gyfer busnesau ger hybiau, a llwybrau ac amserlenni wedi eu newid - er enghraifft, os yw'n effeithio ar deithio i gyrchfannau twristiaeth. Mae ASLEF yn tynnu sylw at y cwestiwn, os bydd cynnydd mewn gweithio o bell yn arwain at fwy o deithio ar gyfer hamdden, tuedd a glywodd y Pwyllgor gan dystion trafnidiaeth, yna gallai manteisio ar hyn helpu i wneud iawn am ostyngiadau mewn teithio cymudwyr a rhoi hwb i sector

twristiaeth Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion eang ar Adfer Trafnidiaeth yn ei adroddiad ar wahân ar Ail-greu ar ôl Covid-19.

109. Dywedodd gweithredwyr bysiau wrth y Pwyllgor pan roesant dystiolaeth nad ymgynghorwyd â nhw eto ar y cynigion polisi. Dywedodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 24 Chwefror fod Llywodraeth Cymru mewn deialog gyson â gweithredwyr ar lawer o faterion ac y byddent 'yn bendant eisiau eu cynnwys ymhellach wrth geisio ddeall y goblygiadau'.

Gwneud y pethau bach yn iawn

110. Wrth sôn am docynnau hyblyg, dywedodd Norman Baker o Campaign for Better Transport y gallai pobl sy'n gweithio gartref yn amlach feddu ar fwy o incwm gwario ar gyfer teithio hamdden a mynd allan; mae'r cynnydd mewn gweithio gartref yn rhywbeth mae angen i'r llywodraeth ei gydnabod, ac y byddai annog pobl i'r cyfeiriad cywir o ran penderfyniadau buddsoddi cywir yn helpu i symud tuag at y sefyllfa mewn dinasoedd ffyniannus eraill yn Ewrop lle na ddefnyddir ceir yn gyffredin. Dangoswyd bod pethau bach fel cynlluniau gwefru yn y gweithle o fudd i'r economi mewn lleoedd fel Nottingham, er gwaethaf ofnau cychwynnol rhai busnesau.

Modelu a chynllunio ar gyfer gwahanol ddyfodol

111. Tynnodd yr Athro Glenn Lyons sylw at yr angen am strategaeth mynediad triphlyg yn dwyn ynghyd cynllunio defnydd tir, cysylltedd digidol a thrafnidiaeth, a chynllunio senarios i ymateb i dueddiadau'r dyfodol.

112. Dywedodd Dr Jane Parry y gall Llywodraeth Cymru chwarae rhan hanfodol wrth fodelu a monitro modelau gweithio a llif traffig newydd, ynghyd â datblygu dadansoddiad parhaus o ganlyniadau newid defnydd ynni i wahanol fathau o amgylcheddau gwaith.

113. Dywedodd Simon Jones o Lywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor, o ran modelu, fod y sefyllfa yn parhau i fod 'dan gwmwl' effaith Covid-19.

6. Trawsnewid Canol Trefi a Dinasoedd

114. Mae'r pandemig wedi cyflymu'r problemau presennol yn enfawr o ran nifer yr ymwelwyr a lefelau deiliadaeth busnes yng nghanol trefi. Mae ymchwiliad yr Athro Felstead yn dangos bod lefelau deiliadaeth mewn canolfannau siopa wedi gostwng 6.1% yng Nghymru yn hanner cyntaf 2020, y gostyngiad mwyaf ledled y Deyrnas Unedig, gyda'r ffigurau diweddaraf ar gyfer rhai canolfannau siopa yng Nghymru mor uchel ag 20% ar gyfer canolfan siopa'r Rhiw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a 74% ar gyfer Parc yr Ŵyl yng Nglynebwy.

115. Mae'r CBI wedi canfod bod busnesau, ledled y Deyrnas Unedig, yn disgwyl i'w gofod swyddfa leihau 18% o'i gymharu â chyn y pandemig. Fodd bynnag, mae dros hanner y busnesau yn disgwyl aros mewn lleoliadau swyddfa neu'n agos atynt, ac nid ydynt yn disgwyl symud yn agosach at gwsmeriaid. Dywedodd Dr Parry ei bod yn 'edrych yn debyg nad yw'r swyddfa'n mynd i farw'. Mae'r adroddiad ymchwiliad Effeithiau Economaidd a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyfeirio at waith gan Leslie Willcock o Ysgol Economeg Llundain, sy'n tynnu sylw at rai ffactorau cymdeithasol sy'n cymedroli pethau, fel amgylchiadau gweithwyr, materion deddfwriaeth sy'n ymwneud ag amodau gwaith, cyfrifoldebau cymdeithasol fel gofal plant, yn ogystal â diwylliant busnes, ac y dylai hynny beri i lunwyr polisi gymryd gofal wrth weithredu.

116. Tynnodd FSB Cymru sylw at gyfleoedd posibl yn sgil gweithlu datganoledig, i gymunedau ac i rai sectorau gwasanaeth fel TGCh, seiberddiogelwch a chlodwyr. Mae gweithio o bell yn rhoi cyfle i ail-gydbwyso'r ymgyrch am gydgrynhoad, a dewisiadau gofodol sydd wedi bod yn canolbwyntio ar ddinasoedd a threfi mawr: "With a significantly more scattered high skill workforce, agglomeration forces may become a less important determinant of regional productivity, a key factor that some think explains Wales' productivity gap with the rest of the UK."

Cymorth ar gyfer Manwerthu

117. Gwelwyd effaith siopa ar-lein yn barod cyn y pandemig, ac mae hynny wedi ei gyflymu gan fwy o weithio gartref, ond nid gweithio gartref sydd wedi achosi hynny. Dywedodd Sara Jones o Consortiwm Manwerthu Cymru wrth y Pwyllgor

fis Hydref y llynedd mai'r hyn rydym yn ei weld i bob pwrpas yw 'gwerth pum mlynedd o drawsnewid yn digwydd mewn cyfnod o bum mis.' Roedd ei ffocws ar Lywodraeth Cymru yn cefnogi uwchsgilio gweithwyr i reoli'r newid enfawr i siopa ar-lein.

118. Mae symudiadau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu canol trefi llai wedi cynnwys hwb ychwanegol o £10 miliwn ym mis Rhagfyr 2020 i'r rhaglen Trawsnewid Trefi sy'n werth £90 miliwn, a mentrau Tasglu'r Cymoedd sy'n cynnwys treialu hybiau cydweithredu. Dywed Llywodraeth Cymru mai nod y cymorth 'Trawsnewid Trefi' yw symud y tu hwnt i ddibyniaeth ar fanwerthu i ddefnydd cymysg.

119. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn sesiwn lawn ar 23 Chwefror fod "manwerthu wrth wraidd y fenter trawsnewid trefi, oherwydd oni chaiff trefi eu trawsnewid yn fannau mwy bywiog, yna bydd y sector manwerthu'n parhau i frwydro."

120. Yn y Pwyllgor ar 24 Chwefror dywedodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol bod cydweithio agos iawn gyda'r sector manwerthu ar strategaeth, a'u bod yn ymwneud yn helaeth â'r grŵp gweithredu gweinidogol ar ganol trefi, a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig.

121. Wrth drafod y 'twll enfawr' a grëwyd yng nghanol trefi drwy golli siopau manwerthu 'angori' mawr, dywedodd Ian Williams o Lywodraeth Cymru:

"the point about Town Centres First is: whether it's about primary care, whether it's about hubs for GPs or being near public transport hubs; whether it's about public sector offices or any other kind of public sector investment— FE colleges, for example— into the middle of town to create a different sort of footfall and a different vibe that will help the retail businesses that are still there— . And they may be different businesses, but it's a footfall that helps to reach our retail businesses more than subsidies quite often."

122. Cododd Paul Slevin o Siambrau Cymru fater yr effaith ar ofod rhentu masnachol. Awgrymodd RICS y byddai hyd yn oed gostyngiad o 30% yn nifer yr ymwelwyr yn cael 'effaith negyddol sylweddol' yng nghanol dinasoedd ac y

gallai ddechrau ymateb cadwyn o gau, a rhybuddiodd am yr effaith niweidiol ar awdurdodau lleol yn sgil y gostyngiad mewn incwm trethadwy.

123. Awgrymodd FSB Cymru strategaeth eiddo leol (ddatganoledig), gyda chyfranogiad awdurdodau a chwaraewyr cymunedol i lunio a darparu atebion lleol, fel rhywbeth a fyddai'n debygol o fod yn fwy llwyddiannus nag agwedd 'os adeiladwn, fe ddônt'. Awgrymodd y gallai gofod 'sbâr' yn y sector cyhoeddus fod ar gael i fusnesau bach a chanolig i fynd i'r afael â methiant y farchnad o ran mynediad at adeiladau ar gyfer y busnesau bach hyn.

124. Tynnodd Dr ap Gareth sylw hefyd at werth model Molenwaard o lywodraethu datganoledig yn yr Iseldiroedd, gan ddod â llywodraeth leol yn agosach at bobl drwy ail-leoli gweithwyr llywodraeth leol yn agosach at y gymuned leol. Mae'n ymddangos bod hyn yn agwedd ar feddylfryd Llywodraeth Cymru, ac mae'r FSB yn ategu galwadau gan TUC Cymru ac eraill iddi arwain drwy esiampl.

Beth yw pwrpas canol trefi a dinasoedd?

125. Barn Gareth Jones o Town Square oedd bod cyfle enfawr bellach i greu 'dinasoedd y gellir byw ynddynt.' Dangosodd ymchwil a gynhaliodd Town Square yn Wrecsam yn ystod y cyfyngiadau symud bod pobl yn gwario mwy ar y stryd fawr yn hytrach nag ar-lein a bod ganddynt fwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'u hardal leol. Mae pobl yn colli cysylltedd cymdeithasol ac eisiau teimlo eu bod mewn cysylltiad â'u cymuned leol.

126. Dywedodd Dr Reuschke wrth y Pwyllgor fod canol dinasoedd yn y Deyrnas Unedig wedi dod yn ofodau masnacheiddiedig iawn ac wedi dioddef o fod yn 'un-swyddogaethol' mewn ffordd na welir yng nghanol dinasoedd Môr y Canoldir, lle ceir mwy o amrywiaeth. Dywedodd Mike Scott o Indycube ei bod yn bwysig symud i ffwrdd o'r syniad bod caniatáu i bobl weithio'n agosach i'w cartref yn fygythiad i ganolfannau trefol:

"...we focus probably too much on the idea of retail and not enough on the idea of experience. People came together in city centres, in urban centres because they liked being around other people. It would just so happen that the driver for that for the last x amount of decades has been to shop, but we've been doing this for centuries and perhaps

much longer than that. People like to congregate, and this is why urban centres developed, and that's not going to change with a change in culture in terms of shopping. People will come together for the same reasons as they always have— they like being around other people, they like the buzz, they like the experience, and it's about creating that offer again within the city centres and allowing people the flexibility to work closer to home, to have that extra time when they need it, and to have that time then to spend at the locations when that's necessary."

127. Awgrymodd yr Athro Glenn Lyons a Dr ap Gareth y gallai newidiadau gofodol hefyd olygu bod tai yn cymryd lle fydd swyddfa mawr yng nghanol dinasoedd (lle byddai mwy o fannau gwyrdd hefyd yn cael eu creu). Tynnodd y Cynghorydd Stewart sylw at y ffocws ar hamdden, tai a seilwaith digidol wrth adfywio canol dinas Abertawe. Dywedodd y dylai hybiau fod yn rhan o wead canol trefi a dinasoedd, nid y tu allan i'r dref.

128. Disgrifiodd yr Athro Felstead yr effaith ar ganol dinasoedd fel pwnc 'astrus', ond roedd ymhlith y rhai a ddywedodd ei bod yn bryd 'ail-ddychmygu dinasoedd', gan dynnu sylw at Nottingham lle mae canolfan siopa Broadmarsh wedi ei dymchwel a man gwyrdd wedi cael ei gyflwyno yn ei lle. Ategir hyn gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, RSPB Cymru a Chyfeillion y Ddaear, sy'n dweud y dylai ymrwymiad i fynediad i bob cartref at fannau gwyrdd, gan gynnwys man gwyrdd trefol bioamrywiol, fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag ardaloedd 20 milltir yr awr a ffocws ar yr economi gylchol. Mae Haf Elgar o Gyfeillion y Ddaear yn gweld gweithio gartref fel rhan o ddull cyffredinol o greu cymdeithas fwy lleol 'fel ein bod ni'n datblygu cymunedau lleol mwy gwydn a chryf.'

129. Dywedodd Ryland Jones o Trawsnewid Cymru hefyd y dylid ystyried datblygu'r cysyniad o gymdogaethau 20 munud fel cyfle i wella mynediad cyfartal at wasanaethau lleol wrth leihau'r straen ar y rhwydwaith ffyrdd, a'i bod yn bwysig ceisio dal gafael yn y buddion yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar y pethau negyddol.

Cynllunio defnydd tir a chydlynu polisi

130. Cefnogodd Norman Baker o Campaign for Better Transport y syniad o hybiau cymunedol lleol i fynd i'r afael ag arwahanrwydd posibl, ond tynnodd sylw at bwysigrwydd cynllunio cydgysylltiedig gan gynghorau lleol a Llywodraeth Cymru i gynnal canol trefi a rheoli'r newid.

131. Mae rhai ymchwilwyr wedi ceisio mesur effaith gweithgarwch economaidd sydd wedi ei ddadleoli yn sgil weithio gartref ar gymdogaethau - yr hyn maent yn ei alw'n "zoomshock". Fel y nodwyd ar Conversation.com, gallai newidiadau mewn gweithgarwch economaidd greu enillion a cholledion net ysgubol yn y tymor hir. Mae Dinas Llundain yn enghraifft eithafol, gyda cholled bosibl o hyd at £9.1 biliwn mewn enillion blyneddol yn yr ardal, fel bod un diwrnod yr wythnos yn unig o weithio gartref fesul gweithiwr yn cyfateb i £1.8 biliwn mewn gweithgarwch a gollwyd. Yn y cyfamser gallai ardal awdurdod lleol Lewisham yn ne-ddwyrain Llundain weld cynnydd mewn allbwn o hyd at 60% o'i gymharu â gweithgarwch economaidd cyn-Covid, neu oddeutu £1 biliwn y flwyddyn.

132. I Gymru, bydd yr enillion a'r colledion net yn amlwg yn llai eithafol, ond gallai newidiadau mewn gweithgarwch economaidd fod yn sylweddol o hyd i ffwrdd o ganolfannau trefol tuag at gymdogaethau preswyl, a gwaethygu'r anghydraddoldeb daearyddol presennol. Mae'r ymchwil a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol hefyd yn nodi y gallai fod amrywiad sylweddol ar draws cymdogaethau cyfagos oherwydd amllder daearyddol rhai mathau o swyddi, a pherygl bod gwasanaethau'n mudo tuag at gymdogaethau cyfoethocach gyda gweithwyr mwy anghysbell. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu angen dybryd i Lywodraeth Cymru fapio ac asesu'r ailddyrrannu economaidd hwn, ac effeithiau ei chynlluniau ar hynny.

133. Mae'r ymchwil gan yr Athro da Fraja, Dr Matheson a Dr Rockey hefyd yn awgrymu rheswm arall pam mae monitro'r newidiadau hyn yn naearyddiaeth drefol y llafurlu mor bwysig, sef y gallai dyrannu adnoddau prin i gynorthwyo busnesau mewn cymdogaethau sy'n profi zoomshock negyddol fod yn wastraff arian, gan y dylai busnesau ddilyn y galw. Ac nid yw'r newyddion i gyd yn ddrwg, gan fod yr ymchwilwyr yn dweud y bydd mwy o gymdogaethau yn elwa na'r nifer fydd ar eu colled, oherwydd bydd gwaith swyddfa dwys ei boblogaeth yn cael ei wasgaru'n deneuach ar draws mwy o gymdogaethau. Mae'r zoomshock

yn gosod heriau o ran sut rydym yn defnyddio canolfannau trefol, ac o ran bywyd yn ein maestrefi.

134. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn awgrymu bod canolfannau trefol a busnesau wedi goroesi argyfyngau o'r blaen, a'i bod yn bosibl mai tueddiad y dyfodol fydd 'addasu yn hytrach na thrawsnewid'. Yn wyneb cymaint o ansicrwydd ynghylch effeithiau hirdymor ar y farchnad lafur, mae'n awgrymu y dylai'r ffocws fod ar greu'r amodau cywir i fusnesau arloesi, addasu a bod yn gydnerth.

135. Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yr angen i ddeall a oes canlyniadau llai cadarnhaol ar gyfer canol trefi. Pan holwyd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol am y dystiolaeth o'r effaith yr oedd mwy o weithio o bell yn debygol o'i chael ar ganol trefi a dinasoedd, cyfeiriodd at waith cychwynnol Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar hyn, gan nodi newid yn nifer yr ymwelwyr rhwng ardaloedd, ond dywedodd mai'r peth allweddodd oedd ei bod yn rhy gynnar i ddweud beth fyddai'r tueddiadau.

136. Bydd angen ymdrech ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i ddeall ac ymateb yn llawn i'r effeithiau economaidd hyn ar ôl pandemig.

7. Hybiau cydweithredu

137. Roedd gan Gymru seilwaith cydweithredu da cyn y pandemig, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, yn ôl Dr Reuschke, diolch i ddarparwyr gofod cydweithredol bach annibynnol ac i aelodau, ond llai o gadwyni cydweithredu masnachol mawr. Mae hi'n rhagweld galw cynyddol am gydweithredu yng Ngheredigion, Sir Ddinbych ac Abertawe.

138. Nododd Llywodraeth Cymru ei dull o fapio angen a threialu hybiau mewn tystiolaeth ysgrifenedig, a thrafododd hyn gyda'r Pwyllgor ar 24 Chwefror. Dywedodd ei bod yn treialu nifer o wahanol fodelau dan arweiniad y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac mewn gwahanol rannau o Gymru, gan gynnwys ardaloedd Tasglu'r Cymoedd. Mae'r enghreifftiau'n amrywio o ymestyn canolfannau ymwelwyr ym mharc rhanbarthol y Cymoedd i gynnwys cydweithredu sy'n fwy 'y tu allan i'r dref' yn yr amgylchedd naturiol, i hybiau yng nghanol trefi neu adeiladau sector cyhoeddus presennol fel pencadlys newydd Trafnidiaeth Cymru ym Mhontypridd.

139. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymarfer 'Commonplace' fel un cam at ymgysylltu â'r cyhoedd ar eu dewis o leoliad hybiau cydweithredu yng Nghymru. Mae'n deall yr awydd i symud ymlaen gyda pholisi 'ar fyrder' i fanteisio ar y cyfle a gyflwynir gan y lefel uchel bresennol o weithio gartref. Fodd bynnag, drwy beidio â mapio'r ddarpariaeth bresennol o fannau cydweithredu yng Nghymru, gan gynnwys ei hybiau peilot ei hun, i ddarparu cyd-destun, a yw wedi colli'r cyfle i fesur y galw am y cyfleusterau presennol hyn a nodi bylchau penodol ar y map?

140. Daw adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i'r casgliad "Fe all fod mwy o awydd am fannau gwaith a hybiau mwy lleol, ond does dim tystiolaeth o blaid hyn ar hyn o bryd, a dylid sefydlu'r angen a'i gadarnhau cyn gwneud unrhyw fuddsoddiad sylweddol."

141. Mae ymchwil Dr Reuschke yn tynnu sylw at y gwahanol fathau o hybiau cydweithredu, gyda gwahanol fodelau busnes ac amrywiad yn yr hyn maent yn ei gynnig ac ar gyfer pwy maent yn darparu. Maent yn cynnwys canolfannau deori busnes fel Town Square yng Nghymru, a Gofodau Gwneud neu Fablabs, sy'n canolbwyntio ar entrepreneuriaeth ac arloesi. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017 yn dangos bod amllder yr olaf yn is yn y Deyrnas Unedig na gwledydd

eraill yr Undeb Ewropeaidd, ac yn is fyth yng Nghymru o gymharu â rhai rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae mannau cydweithredu eraill yn canolbwyntio mwy ar gymorth cymunedol, neu deuluol, ac mae rhai wedi eu hintegreiddio â darpariaeth gofal plant. Mae rhai lleoedd cydweithredu anffurfiol iawn, a chyfleoedd i ddefnyddio lleoliadau sydd fel arfer wedi cau yn ystod y dydd, fel clybiau neu fariau, i ddarparu lle i gydweithredu yn ystod y dydd. Mae Dr Reuschke yn tynnu sylw at bwysigrwydd asesu cydnerthedd gwahanol fodelau, ac edrych ar ddiwylliedd, ffioedd a thelerau ac amodau'r darparwyr.

142. Pwysleisiodd Siambrau Cymru a Town Square yr angen i ailbennu adeiladau presennol a pheidio ag ailddyfeisio'r olwyn. Argymhellodd Town Square y dylid datblygu 'map gwres cymudwyr am allan', cofrestr asedau o adeiladau cyhoeddus na ddefnyddir yn ddigonol ar gyfer ailbennu eu diben; Llywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl drwy leoli ei staff mewn hybiau; a chynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r farchnad drwy'r contract economaidd.

143. Dywedodd Ian Williams o Lywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor bod y Llywodraeth yn edrych ar bob adeilad gwag wrth iddynt ddod yn wag yng nghanol ein trefi, a bod ganddi gronfa i geisio ailbennu diben yr adeiladau gwag hynny, hyd yn oed os yw at ddefnydd 'yn y cyfamser' yn unig. Tynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol sylw at hen adeilad Costigans yn y Rhyl fel enghraifft o ailbennu diben adeilad sy'n agos at ganolbwynt trafnidiaeth i'w ddefnyddio gan y sector preifat ac entrepreneuriaid.

144. Dywedodd Gareth Jones o Town Square fod yn rhaid lleoli hybiau yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus; Dywedodd Mike Scott o IndyCube Wales y byddai'n gamgymeriad creu hybiau newydd y tu allan i'r dref y mae'n rhaid i bobl deithio iddynt. Oni bai bod cyfleusterau eraill gerllaw y mae pobl eisiau eu defnyddio, mae risg o symud gweithgarwch a defnyddio ceir i ffwrdd o ganol y ddinas, yn hytrach na chynhyrchu newid moddol mewn cymdogaeth o ddifri. Mae Dr Reuschke yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio seilwaith, gan gynnwys seilwaith teithio llesol, o gwmpas lleoliadau hybiau.

145. Wrth gael ei holi am y pryder hwn ynghylch dadleoli, dywedodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai gwahanol deithiau lleol byrrach, ond bod hynny'n rhan o strategaeth ehangach ynghylch symud moddol a lleihau carbon fel rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

146. Dywedodd Gareth Jones o Town Square fod yn rhaid cynnwys darpariaeth gofal plant yng nghanol trefi a ger hybiau fel rhan o'r cynlluniau. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru fod yn rhaid i hybiau ystyried gofal plant ac anghenion ehangach y bobl sy'n gweithio yno. Bydd yn bwysig i Llywodraeth Cymru sicrhau bod polisi gofal plant ymhlith y meysydd polisi sydd â chysylltiad agos â datblygu hybiau cymunedol.

147. Dywedodd Dr ap Gareth o FSB Cymru y dylai'r dull fod yn ddatganoledig a bod cydleo'i'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector academaidd yn bwysig o ran arloesi – gan gysylltu â sefydliadau angori lleol a dod â phrifysgolion a chwmnïau arloesol ynghyd.

148. Tynnodd Dr Reuschke sylw hefyd at ddefnyddio seilwaith cymunedol i ategu rhwydweithiau cydweithredu anffurfiol a hybiau dros dro (pop-up), yn enwedig mewn ardaloedd gwledig â dwysedd isel - gallai awdurdodau lleol helpu drwy ddefnyddio llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol. Byddai dull o'r fath yn helpu i fynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol ynysu ar y rhai sy'n gweithio o bell.

149. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod rhai o'i gynlluniau peilot yn llywio cyfeiriad y buddsoddiad presennol – er enghraifft, fel rhan o waith Tasglu'r Cymoedd, ond roedd dau gynllun peilot sydd ar ddod a redir gan Town Square a HaverHub yn ymwneud i raddau helaeth â rhoi lle diogel i'r sector preifat archwilio'r farchnad newydd.

150. Roedd cynlluniau peilot cymunedol eraill y dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn cael eu datblygu i'w cael mewn ardaloedd gwledig, gyda'r nod o ddarparu cysylltedd band eang mewn pentrefi, fel yng Nghwm Tawe, a chreu man cydweithredu yn swyddfa Cymdeithas Tai Rhondda.

151. Mae'r rhwydwaith hybiau cydweithredu presennol dan fygythiad gan Covid-19 ac mae angen cymorth gyda chostau sefydlog, yn ôl Dr Reuschke. Ond mae hefyd angen i'r canolfannau presennol edrych ar ganolbwyntio o'r newydd y tu hwnt i gefnogi busnesau newydd - er enghraifft, darparu lle i weithwyr swyddfa mwy traddodiadol, neu ddarpariaeth arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion mewn gwahanol sectorau busnes. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar weithio gyda Busnes Cymru a mentrau newydd entrepreneuriaidd, sy'n amlwg yn bwysig, ond mae'r Pwyllgor yn croesawu profi

amrywiaeth ehangach o ddewisiadau yn y rhaglen beilot. Hoffai weld dull eang, datganoledig o'r hyn y gall mannau cydweithredu ei gynnig a phwy y gallant eu cynnwys, a all amrywio'n fawr yn ôl tref a rhanbarth.

152. O ran modelau busnes a modelau cyllido posibl, nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

“bydd angen inni ystyried i ba raddau y gellir darparu cyfleusterau o'r fath, neu i ba raddau y mae cyfleusterau yn cael eu darparu eisoes gan y sector preifat/y trydydd sector, ac i ba raddau y gallai fod angen cymorth ariannol ar gyfer modelau darparu o'r fath. Wrth ddatblygu'r rhan hon o'r polisi, un ystyriaeth bwysig yw a fydd sefydliadau cyflogwyr yn talu pan fydd gweithwyr yn defnyddio cyfleusterau o'r fath, sut y byddant yn talu amdanynt, a sut y gellid eu cynorthwyo i wneud hynny. Bydd y manylion hyn yn effeithio ar ba mor ddeniadol fydd cyfleusterau gweithio lleol ac ar y defnydd a wneir ohonynt. Bydd hefyd yn effeithio ar faint o ddarpariaeth a wneir gan y sector preifat.”

153. Yn y Pwyllgor, ychwanegodd Simon Jones o Lywodraeth Cymru:

“a big part of this exercise with the pilots is to try and work out what the business model is here. What does a revenue stream look like? How much would employers be prepared to pay? What could we do in terms of aggregating demand from the public sector, in particular? What does the price point look like? What are the facilities that will be required for employers to be able to be satisfied to pay for their staff to use one of these places? Is there any market for employers to pay for these things?”

154. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi y gallai fod rhai rhwystrau i'w goresgyn o ran partneriaethau cyhoeddus-preifat. Nodwyd mewn tystiolaeth lafar bod materion diogelwch i'w goresgyn o ran defnyddio adeiladau'r sector cyhoeddus. Ymhlith y materion eraill i'w hystyried mae darparu cymhellion, a phwy sy'n talu. Mae'n bwysig na wneir unrhyw beth sy'n ystumio'r farchnad yn anfwriadol neu'n niweidio rhagolygon darparwyr presennol ymhellach. Bwriad cynlluniau peilot hybiau Llywodraeth Cymru yw “[g]weld faint fydd yn manteisio arnynt, pa mor effeithiol ydynt, ac i werthuso modelau darparu gwahanol.” Hoffai'r Pwyllgor

weld y gwerthusiad hwn yn arwain yn gyflym at gamau lle gellir dangos buddion.

155. Dywedodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y bydd datblygu hybiau cydweithredu yn cael ei arwain gan y sector preifat yn bennaf, a'i fod eisoes wedi cael ymholiadau gan fusnesau a oedd wedi gweld cyfle i greu hybiau cydweithredu. Roedd o'r farn mai rôl y Llywodraeth yw helpu i'w siapio, a threialu a phrofi gwahanol ddulliau. Dywedodd ei fod yn ymwneud â:

“...how do we facilitate a diversity of experience that people who don't want to be stuck at home have an attractive alternative, in a nearby town, they can go there and use that, and we have to test a variety of different approaches to see which works. This is virgin territory.”

156. Roedd gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol 'feddwl agored' ar y math o fesur cymorth a allai gael ei gynnig i fusnesau a gweithwyr cyn gweld canlyniad yr ymarfer mapio galw, ond roedd o'r farn y gallai fod rhywfaint o arbedion i'w gwneud wrth i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ad-drefnu'r defnydd o ofod corfforol y gellid wedyn ei ddargyfeirio at hybiau cymunedol. Dywedodd Ian Williams hefyd y gallai'r trydydd sector fod ar ei ennill o ddifrif mewn partneriaethau cydweithredu. Dywedodd fod y grant creu lleoedd sy'n werth £9 miliwn a gyflwynwyd wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi cael derbyniad da, felly gallai'r 'adfywio bach' yn hytrach na'r buddsoddiadau adfywio strategol mawr fod yn llwyddiannus iawn o ran helpu i addasu.

157. Gofynnwyd i Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth pa sgysiau a gafodd gyda chyflogwyr mwy sydd â swyddfeydd yng nghanol dinasoedd ynghylch eu diddordeb mewn talu i weithwyr weithio'n agosach i'w cartref. Dywedodd, o siarad gyda'r CBI a chyflogwyr mawr ynghylch y pwyntiau ehangach, eu bod 'ymhell ar y blaen o ran hyn' a'i fod yn disgwyl model cymysg yn y dyfodol. Dywedodd Ian Williams ac yntau hefyd fod cyflogwyr yn gweld cynnig gweithio hyblyg fel ffordd o ddenu talent.

158. Rhaid i Gymru ddysgu o brofiad rhwngwladol wrth gefnogi'r ffyrdd newydd hyn o weithio. Er enghraifft, gall edrych ar brofiadau dinasoedd eraill yn Ewrop, fel Milan, lle mae cydweithredu yn cael ei hyrwyddo'n fawr gyda chynllun talebau sy'n canolbwyntio ar bobl, a ddefnyddir i gymell gweithwyr unigol i ddefnyddio mannau cydweithredu.

159. Mae Milan a Paris yn ymateb i fygythiad Covid-19 i gydnerthedd y mannau cydweithredu hyn drwy ystyried cymorth ariannol arbenigol, ac mae dinas Milan yn cwmpasu defnyddio adeiladau trefol ar gyfer defnydd cyffredin gan weision sifil. Dywed Dr Reuschke fod hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ferched sy'n gweithio.

160. Awgrymodd Dr Jane Parry hefyd y dylid edrych ar rwydwaith hunan-drefnu HOFFICE yn Sweden, a rhwydwaith UK Jelly ar gyfer pobl hunangyflogedig. Yn agosach at adref, mae Cyngor Dinas Bryste wedi sefydlu mannau cydweithredu mewn partneriaeth â Phrifysgol Bryste a Phartneriaeth Menter Leol Gorllewin Lloegr fel rhan o gydweithrediad ehangach yr 'Engine Shed'.

161. Roedd tystion yn gobeithio gweld pecynnau cymorth ar fyrder i helpu pobl i gadw'r ffyrdd newydd o weithio yn dilyn etholiadau'r Senedd, heb unrhyw ddal yn ôl o ran y buddsoddiad mewn seilwaith digidol strategol i ategu hyn ledled Cymru gyfan. Awgrymwyd rhai ffyrdd posibl o fwrw ymlaen â hyn yn adroddiad Dr Reuschke. Amlygodd fod llawer o ddinasoedd yn Ewrop wedi darparu cymorth ariannol i fannau cydweithredu, gofodau gwneud a FabLabs i gynorthwyo busnesau newydd a datblygu'r economi.

162. Mae Dr Reuschke yn tynnu sylw at y dull arloesol a ddefnyddiwyd gan ddinas Milan, lle mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio dull triphlyg o gynorthwyo cydweithredu. Yn gyntaf, nododd fannau ar draws yr ardal y gellid o bosibl eu defnyddio ar gyfer cydweithredu. Yn ail, cynhaliodd arolwg i nodi mannau sy'n addas ar gyfer cydweithredu, achredu'r rhain, a darparu arian ar y cyd i ddatblygu'r mannau hyn. Yn drydydd, mae Milan wedi darparu talebau o hyd at €1,500 i weithwyr unigol a gweision sifil weithio mewn mannau cydweithredu achrededig. Yn ogystal, mae Milan wedi bod yn ystyried darparu cymorth ariannol ychwanegol i'w fannau cydweithredu achrededig, gan fod llawer wedi bod drwy gyfnod ariannol anodd yn ystod y pandemig. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr holl ddulliau hyn wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gefnogi mannau cydweithredu.

8. Argymhellion

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n fras y camau a nodwyd gan y Dirprwy Weinidogion i ddatblygu polisi gweithio o bell Llywodraeth Cymru, drwy gasglu data a thystiolaeth sydd wedi eu diffinio'n gliriach, ymgynghori, ymgysylltu ac asesu effaith.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dogfen strategol yn nodi ei dull o weithredu polisi gweithio o bell, ac amlinellu'r camau allweddol y bydd yn eu cymryd i gyflawni hyn. Dylai hyn gynnwys mapio sut bydd gwahanol rannau'r uchelgais polisi yn cael eu cydgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru – er enghraifft, cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, polisi ar gynllunio gofodol a seilwaith, gofal plant, cydlyniant cymunedol, a gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid eraill.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ddangos arweiniad drwy flaenoriaethu cyflawni'r uchelgais hirdymor bod cyfran sylweddol o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio o bell yn rheolaidd, a nodi cynlluniau i gyflawni hyn.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei diffiniad o “weithio o bell” yn glir, yn ogystal â gweithio “gartref neu'n agos i gartref” fel bod modd mesur cynnydd yn union o ran cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o 30% o bobl yn gweithio o bell yn rheolaidd.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu mesurau ystadegol cryf yn seiliedig ar ei diffiniad(au) a nodwyd yn glir ar gyfer gweithio o bell (gan gynnwys gartref neu “yn agos at” adref). Rhaid gwneud hyn er mwyn monitro a gwerthuso canlyniadau o ran ei huchelgais polisi gweithio o bell, ac i ddeall yr effeithiau ar y gweithlu a chyflogwyr unigol.

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru brif ffrydio cydraddoldeb wrth ddatblygu ei pholisi gweithio o bell, a nodi'n glir sut mae'n gwneud hyn. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r asesiad effaith integredig ar gyfer y cynigion polisi gweithio o bell cyn gynted â phosibl, ond hefyd asesu ehangder yr asesiad hwnnw yn erbyn yr amrywiaeth lawn o

effeithiau cydraddoldeb a materion a godwyd yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Senedd.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n asesu effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y polisi gweithio o bell a sut bydd yn cydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd, yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg y gallai anghydraddoldebau economaidd ddeillio o bolisi sy'n ffafrio gweithwyr mwy medrus a chyfoethog.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth y tu hwnt i'r hybiau peilot i lywio ei strategaeth a'i dull o ddatblygu a chefnogi hybiau cydweithredu, gan ei bod yn amlwg bod nifer o fylchau yn y dystiolaeth ar gyfer manau cydweithredu. Dylai hyn gynnwys dealltwriaeth o effeithiau economaidd a chymdeithasol y ddarpariaeth gydweithredu bresennol; dadansoddiad o'r bylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth gyfredol; a dealltwriaeth o arferion gorau rhyngwladol.

Argymhelliad 8. Y tu hwnt i egwyddor 'Canol Trefi yn Gyntaf' gyfredol Llywodraeth Cymru a'r rhaglen 'Trawsnewid Trefi', dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Strategaeth a Chynllun Manwerthu a all addasu ac ymateb i dueddiadau gweithio o bell a gosod llwybr clir i'r sector hwnnw yng Nghymru, a'r busnesau a bywoliaethau gweithwyr y mae'n eu cefnogi.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer darparu cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth i'r rhwydwaith hybiau cydweithredu presennol yng Nghymru.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut bydd yn cyfleu'r polisi gweithio o bell i'r cyhoedd, a sut bydd yn ymgysylltu â'r cyhoedd, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol a chyrff cymunedol, a sut bydd yn mesur ac yn adrodd ar ganlyniadau'r ymgysylltu hwnnw.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ategu'r gwaith mae'n ei gynllunio, i fapio manau cydweithredu presennol ac ystâd y sector cyhoeddus, drwy gasglu gwybodaeth am asedau cymunedol a masnachol y gellid eu hailbwrpasu i ategu'r gwaith o ddatblygu hybiau gweithio o bell.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y Bil Cyflogaeth ac unrhyw gynnig deddfwriaethol cysylltiedig yn y Deyrnas Unedig i amddiffyn llesiant gweithwyr ar ôl y pandemig. Dylai hefyd nodi'r hyn y mae am ei weld o ddeddfwriaeth ledled y Deyrnas Unedig mewn perthynas â hawliau cyflogaeth gweithwyr o bell.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu defnyddio ysgogiadau datganoledig i amddiffyn a hyrwyddo hawliau gweithwyr wrth weithio o bell, ac i gyflawni'r newid diwylliant angenrheidiol ymhlith cyflogwyr – er enghraifft, drwy'r contractau economaidd; deddfwriaeth bosibl ar bartneriaethau cymdeithasol; gweithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg a thrwy ddarparu cymorth ac arweiniad swyddogol ar arferion gwaith rheoli da.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Pwyllgor perthnasol yn y chweched Senedd ar ei chynlluniau a'i blaenoriaethau ar gyfer cau'r bwlch digidol o ran cysylltedd band eang yng Nghymru, a sut bydd yn gweithio gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran mynediad a chynhwysiant digidol.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor perthnasol yn y Chweched Senedd ar gynnydd a statws:

- y rhaglen beilot hybiau cydweithredu;
- Y rhaglen Trawsnewid Trefi;
- ei hadolygiad o ystâd y sector cyhoeddus a'r defnydd o asedau;
- ei strategaeth weithio aml-leoliad ar gyfer staff Llywodraeth Cymru; a
- datblygu partneriaethau gyda'r sector preifat, partneriaid llywodraeth leol, y byd academiaidd a sefydliadau angori eraill a'r trydydd sector, i ddod o hyd i atebion ymarferol i rannu hybiau cydweithredu a hyrwyddo eu defnydd.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
9 Rhagfyr 2020	Yr Athro Alan Felstead, Prifysgol Caerdydd Dr Jane Parry, Prifysgol Southampton Dr Llŷr ap Gareth, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru Paul Slevin, Siambrau Cymru Ian Price, Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru
13 Ionawr 2021	Y Cynghorydd Rob Stewart, Cyngor Dinas a Sir Abertawe Phil Roberts, Cyngor Dinas a Sir Abertawe Gareth Jones, Town Square Spaces Ltd Mike Scott, IndyCube
27 Ionawr 2021	Shavanah Taj, Cyngres Undebau Llafur Cymru Cerys Furlong, Chwarae Teg Yr Athro Abigail Marks, Prifysgol Newcastle Antti Närhinen, Llywodraeth y Ffindir Marianne Keyriläinen, Llywodraeth y Ffindir Yr Athro Kirsimarja Blomqvist, Prifysgol LUT, y Ffindir

	Dr Noortje M Wiezer, TNO Netherlands (Sefydliad yr Iseldiroedd ar gyfer Ymchwil Wyddonol Cymhwysol)
3 Chwefror 2021	Scott Pearson, Cymdeithas Coetsus a Bysiau Cymru Jane Reakes-Davies, First Cymru Buses Ltd John Burch, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr
24 Chwefror 2021	Lee Waters AS Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Hannah Blythyn AS Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Lea Beckerleg, Llywodraeth Cymru Ian Williams, Llywodraeth Cymru Simon Jones, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
RW-01	Prifysgol Caerdydd
RW-02	Prifysgol Caerdydd
RW-03	Cymdeithas Meddygaeth Alwedigaethol
RW-04	Prifysgol Southampton
RW-05	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru)
RW-06	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
RW-07	Cymorth i Ferched Cymru
RW-08	Y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)
RW-09	Canolfan Cydweithredol Cymru
RW-10	Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) Cymru
RW-11	Cymdeithas Gysylltiedig Peirianwyr Locomotif a Dynion Tân (ASLEF)
RW-12	Legally Disabled?
RW-13	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
RW-14	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
RW-15	Anabledd Cymru
RW-16	Mitie
RW-17	BCS, Sefydliad Siartredig TG
RW-18	Zoom Video Communications